PAC(4)-19-12 Paper 1

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol 2011-12

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

ffôn 02920 320 500
e-bost info@wao.gov.uk

gwefan www.wao.gov.uk
twitter twitter.com/ArchwilioCymru

© Archwilydd Cyffredinol Cymru

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

# UCHAFBWYNTIAU

Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon dros **800** o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

**8 ADRODDIAD CENEDLAETHOL**
ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus

**28 AADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL**
ar gyrff llywodraeth leol a chynhaliwyd asesiadau strwythuredig ymhob un o fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG

**40** nifer y cynlluniau grant llywodraeth leol a ardystiwyd a oedd gwerth dros £3 biliwn a oedd yn cynnwys dros 800 o hawliadau unigol, ac arweiniodd hynny at addasiadau gwerth
**£1.6 MILIWN**

Edrychwyd ar gynnwys ein gwefan Cyfnewidfa Arfer Da tua
**110,000 O WEITHIAU**

O ganlyniad i'r Fenter Twyll Genedlaethol llwyddodd cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth
**£6 MILIWN**
ac ers i'r fenter ddechrau yng Nghymru mae dros
**£22 MILIWN**
i gyd wedi'i nodi

Sicrhawyd arbedion cyffredinol gwerth
**£1 MILIWN**
yn ein cyllideb, drwy leihau costau a sicrhau mwy o effeithlonrwydd

Lleihau faint o deithio busnes a wnaed o dros
**100,000 O FILLTIROEDD**

Lleihau allyriadau $CO_2$ bron **10%**

Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir gennym **22%**

# RHAGAIR GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU



Bu hon yn flwyddyn galonogol i Swyddfa Archwilio Cymru ar sawl cyfrif. Er bod heriau i'w hwynebu o hyd, ceir cryn gadarnhad ein bod yn cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn rhoi sicrwydd gwerthfawr ac annibynnol i ddinasyddion. Mae llawer o'n rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod ganddynt hyder mawr ynom ac, mewn arolwg cynhwysfawr, dywedodd y cyhoedd wrthym eu bod yn ymddiried yn ein barn annibynnol ar y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt.

Rydym wedi mynd ati mewn ffordd hyblyg sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus ond nad yw'n peryglu manwl gywirdeb ein gwaith o graffu ar wariant cyhoeddus. Byddwn yn parhau i'w helpu i sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol i Gymru - a hynny mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Unwaith eto mae ein gwaith archwilio ariannol wedi rhoi sylfaen dros ein rhaglen archwilio a'n gallu i gynnig sicrwydd i ddinasyddion. Yng nghanol y rhaglen arfaethedig o waith archwilio perfformiad rydym wedi cynnal adolygiadau ychwanegol, megis gwaith sy'n ymwneud â Gwesty River Lodge, Llangollen, yr oedd angen ei gynnal yn ddi-oed ac mewn ffordd sensitif.

Rydym hefyd wedi ymateb i agenda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac i gyfleoedd newydd i gydweithio â chyrff archwilio eraill. Yn amlwg, mae'r pwyslais ar waith yn ôl y galw wedi dylanwadu ar yr astudiaethau a baratowyd y llynedd, ond rydym yn parhau i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt geisio rheoli adnoddau a sicrhau gwelliant, gan gynnig beirniadaeth amserol a chymorth i ddysgu. Gobeithiaf y bydd digwyddiadau megis ein cynhadledd ddiweddar yn helpu i atgyfnerthu'r rôl y gall archwilwyr ei chwarae i hyrwyddo atebolrwydd ochr yn ochr ag arloesedd a'r gwaith o reoli risgiau'n dda.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Bil Archwilio Cyhoeddus (i Gymru). Er y croesawaf y bwriad sy'n sail i'r Bil mae'n cynnwys elfennau y mae angen gwaith pellach arnynt i sicrhau y caiff annibyniaeth archwilwyr a hawliau cyflogeion eu diogelu'n briodol.

Wrth i gyrff cyhoeddus eraill fynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod adnoddau'n mynd ymhellach, byddwn ni hefyd yn parhau i geisio gwneud mwy gyda llai, gan weithio'n galetach ac yn gallach. Fy staff sydd wedi sicrhau'r llwyddiannau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn a pharhaf i werthfawrogi eu medrusrwydd, eu profiad a'u hymrwymiad yn anad pob adnodd arall sydd ar gael i ni. Gwn eu bod yn rhannu fy mhenderfyniad ein bod yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.

# CYNNWYS


8 Amdanom ni

10 Ein gwaith eleni

- 11 Archwilio ariannol
- 13 Archwilio perfformiad
- 22 Gwaith ardystio grantiau, a cheisiadau am arian o Gronfa Gyfunol Cymru
- 24 Paru data
- 25 Gweithio gydag eraill i rannu dysgu
- 30 Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw

31 Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

36 Ein sefydliad

48 Adolygiad ariannol

53 Datganiadau o gyfrifon

- 70 Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

# AMDANOM NI

Yr Archwilydd Cyffredinol a’r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o’r rhan fwyaf o’r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £14 biliwn a ddyfernir i Gymru’n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau o’r arian hwn i’r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (bron £4 biliwn).

Mae’r Archwilydd Cyffredinol a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio’r Swyddfa yn gyffredinol yn ogystal â’i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

Caiff tua dwy ran o dair o’n gwaith archwilio blynyddol ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gweddill ein gwaith ar gontract i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat (sef Grant Thornton UK LLP, KPMG Europe LLP, PricewaterhouseCoopers LLP, UHY Hacker Young LLP, BDO LLP a Mazars LLP ar hyn o bryd).



Tîm Safon Ansawdd Tai Cymru
Matt Mortlock, Claire Food-Page, Gwilym Bury a Justine Morgan

## Beth rydym yn ei wneud

Fel archwilwyr allanol, rydym yn ystyried yn annibynnol a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth ac a gyfrifir amdanynt yn briodol. Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae ein gwaith archwilio yn ychwanegu gwerth at gymdeithas drwy'r canlynol:

- rhoi sicrwydd amserol ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol, yn enwedig ar y graddau y mae anghenion pobl yn cael eu diwallu a'u profiadau a'u pryderon; a
- nodi'n glir ble a sut y gellir gwella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi cod ymarfer, sy'n rhagnodi'r ffordd y dylai archwilwyr cyrff llywodraeth leol gyflawni eu swyddogaethau, ac yn hyrwyddo arfer proffesiynol gorau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ehangu ac wedi mabwysiadu'r cod hwn o'i wirfodd fel ei fod yn berthnasol i'w waith archwilio ym maes iechyd a llywodraeth ganolog hefyd.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar bedair egwyddor, sef:

- Canolbwyntio ar y cyhoedd
- Bod yn annibynnol
- Bod yn gymesur (archwilio ar y lefel sydd ei hangen yn unig)
- Bod yn atebol

## Y sawl rydym yn gweithio â hwy

Ein rôl yw rhoi sicrwydd annibynnol bod arian cyhoeddus yn cael ei wario er budd pobl. Rydym yn gweithio gyda'r canlynol:

- Pobl Cymru
- Y Cynulliad Cenedlaethol, yn bennaf drwy ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Llywodraeth Cymru
- Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r cyrff sy'n eu cynrychioli
- Arolygiaethau a rheoleiddwyr perthnasol eraill

# EIN GWAITH ELENI

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal rhaglen eang ac amrywiol o waith archwilio allanol. Mae'n cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau grant, ymarferion gwrth-dwyll a rhoi caniatâd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio arian.

Yn yr adran hon, amlinellwn y gwaith archwilio a wnaed gennym y llynedd a thynnwn sylw at rywfaint o'r effaith a gafodd.



Tîm Archwilio Sir y Fflint
Simon Monkhouse, Bob Hughes, Arwel Owen, Jessica Hamilton, Amanda Hughes a John Herniman

# ARCHWILIO ARIANNOL

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi cyfrif am yr arian yn eu gofal. Y brif ffordd y maent yn gwneud hyn yw drwy baratoi cyfrifon blynyddol amserol a chywir. Yn ein gwaith archwilio ariannol rydym yn canolbwyntio ar archwilio'r cyfrifon hyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod.

Yn 2011-12, cyhoeddwyd adroddiadau gennym ar gyfrifon tua 840 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn eu plith roedd Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd, awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau ac ymddiriedolaethau heddlu a phrawf, cronfeydd pensiwn a chynghorau cymuned a thref.

Heblaw am un mân eithriad technegol, ni fu angen i ni roi barn archwilio amodol i adlewyrchu unrhyw arfer cyfrifyddu anghywir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd archwilwyr yn aml yn awgrymu diwygiadau sylweddol i gyfrifon drafft cyrff, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir, ac yn gwneud llawer o argymhellion i'r rhai a oedd yn gyfrifol am reoli a goruchwylio'r cyfrifon.

Yn ogystal â materion cyfrifyddu, yn aml mae'n rhaid i archwilwyr ymdrin ag amrywiaeth o faterion a nodwyd ganddynt wrth ymgymryd â'u gwaith neu faterion y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'u dwyn i'w sylw, ac ymateb iddynt. Eleni, adolygwyd nifer o faterion a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella mewn amrywiaeth eang o bynciau.

Rydym yn cymryd ansawdd ein gwaith archwilio o ddifrif ac yn cynnal rhaglen flynyddol o adolygiadau sicrhau ansawdd. Mae a wnelo'r adolygiadau hyn â sicrhau y caiff archwiliadau eu cynnal yn drylwyr yn unol â safonau proffesiynol. Mae ein rhaglen adolygu hefyd wedi'i chynllunio i sicrhau y cynhelir archwiliadau'n effeithlon a bod y broses archwilio yn ychwanegu gwerth ar gyfer cyrff a archwilir. Cynhaliwyd nifer o'r adolygiadau ar gyfer archwiliadau 2010-11 gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon i roi lefel ychwanegol o her i'n gwaith.

Rhan annatod arall o'n gwaith sicrhau ansawdd yw rhannu arfer da. Rydym yn gwneud hyn yn fewnol, er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd i wella ein gwaith archwilio, ac yn allanol i helpu cyrff a archwilir i wella eu trefniadau i baratoi cyfrifon cywir, amserol ac wedi'u hategu'n dda.




# Adroddiad cryno o Gyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11

Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddwyd math newydd o adroddiad gennym. Ynddo daethpwyd ynghyd ganlyniadau gwaith archwilio cyfrifon ym mhob corff llywodraeth leol o'r flwyddyn ariannol flaenorol, a thynnwyd sylw at themâu a materion cyffredin.

Mae'r adroddiad yn nodi bod 2010-11 yn flwyddyn heriol i gyrff llywodraeth leol o ran paratoi cyfrifon. Yr her fwyaf oedd mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf a oedd yn gofyn am newidiadau sylweddol i arferion cyfrifyddu a chyflwyno'r datganiadau ariannol.

Daeth ein gwaith i'r casgliad bod awdurdodau lleol wedi ymdopi'n dda ar y cyfan â'r newidiadau mawr yr oedd angen eu gwneud o ran y ffordd y mae cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno. Roedd cyfrifon ariannol a phapurau ategol wedi'u paratoi'n dda ar y cyfan ac wedi'u cyflwyno ar amser. Rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar bob set o gyfrifon, namyn un.

Fodd bynnag, roedd angen diwygio llawer o'r cyfrifon mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar ôl iddynt gael eu harchwilio. Gyda'i gilydd, gwnaethpwyd addasiadau perthnasol ac addasiadau eraill gwerth £613 miliwn i'r mantolenni ac addasiadau gwerth £502 miliwn i ddatganiadau o incwm a gwariant cynhwysfawr.

Oherwydd diffyg canllawiau penodol mewn rhai meysydd, gwelwyd hefyd fod dulliau cyfrifyddu mewn meysydd megis prisio tai cyngor a thrin ysgolion gwirfoddol yn dal i fod yn anghyson. Byddwn yn parhau i weithio gyda Grŵp Prif Gyfrifwyr Cymdeithas Trysoryddion Cymru a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i nodi dull gweithredu mwy cyson.

Bwriadwn gyhoeddi adroddiad cryno o'n gwaith ar gyfrifon llywodraeth leol bob blwyddyn, ochr yn ochr ag adroddiadau cryno tebyg ar ein gwaith yn y GIG a llywodraeth ganolog.

# ARCHWILIO PERFFORMIAD




## Adroddiadau cenedlaethol

Yn ystod 2011-12, cyhoeddwyd wyth adroddiad cenedlaethol gennym ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus, a hynny'n aml o safbwynt 'system-gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Disgrifir y gwaith a wnaethom ac effaith detholiad o'r adroddiadau hyn yn yr adran ganlynol.

Mae ein hadroddiadau yn rhoi sylfaen ar gyfer gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn ei rôl i sicrhau y creffir ar wariant Llywodraeth Cymru mewn modd priodol a thrylwyr. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliadau penodol i faterion o ddiddordeb neu bryder a ddeilliodd o'n hadroddiadau, a lluniodd adroddiadau ac argymhellion ar ei ganfyddiadau.




Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff
Andy Phillips

# Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff

Yn ein hastudiaeth genedlaethol ddiweddar *Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff*, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012, gofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod y cyhoedd yn ailgylchu gwastraff cymaint â phosibl.

Canfuwyd bod ailgylchu yng Nghymru yn cynyddu wrth i fwy o bobl gyfranogi, ond erys rhwystrau sylweddol i weithredu'r strategaeth genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Daethom i'r casgliad y bydd y rhwystrau hyn yn llesteirio gwelliannau yn y tymor hwy oni fydd ymgais i'w goresgyn.

Hyd yma, mae perfformiad ailgylchu Cymru yn dda ac, yn ein barn ni, mae targed Llywodraeth Cymru y dylai pob awdurdod lleol ailgylchu 70 y cant o wastraff trefol erbyn 2024-25 yn her sylweddol ond un y gellir ei chyflawni.

Fodd bynnag, mae'r her fwyaf, sef lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yng Nghymru yn gyffredinol, yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth wastraff genedlaethol, ac mae'n debygol o fod yn llawer anos i'w chyflawni na chyfradd ailgylchu uchel.

Fel rhan o'n gwaith ar yr astudiaeth hon, cynhaliwyd arolwg o reolwyr gwastraff ym mhob awdurdod lleol cyn cyfarfod â hwy i drafod cynlluniau ailgylchu a'u barn ar baratoadau'r awdurdod i gyflawni targedau. Bwriedir cynnal digwyddiad dysgu ar y cyd dilynol i'r rhain a phartïon eraill â diddordeb.



Gwasanaethau Iechyd Meddwl
i Oedolion: Adroddiad Dilynol
Steve Ashcroft

# Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion: Adroddiad Dilynol

Yn yr astudiaeth ddilynol hon, gwelwyd cynnydd clir o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ers 2005, pan gyhoeddwyd ein hadolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarparwyd. Fodd bynnag, erys rhai bylchau ac anghydraddoldebau pwysig yn y gwasanaethau o hyd, sy'n adlewyrchu llwyddiant cymysg Llywodraeth Cymru, cyrff y GIG, a chynghorau o ran dileu rhwystrau allweddol i newid. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn wynebu heriau newydd wrth ddatblygu gwasanaethau ymhellach yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Fel rhan o'r astudiaeth ddilynol, casglwyd tystiolaeth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau, cyrff y GIG a thimau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae canlyniadau ein gwaith yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio a diweddaru ei strategaeth iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi dosbarthu ein canfyddiadau'n eang ymhlith swyddogion Llywodraeth Cymru a grwpiau a rhwydweithiau iechyd meddwl cenedlaethol byrddau iechyd, mewn ymgais i helpu i ganolbwyntio ar yr agenda wella a'i llunio.

'Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu rôl mewn cysylltiad â'r rhaglen ac am weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r broses. Roedd hyn yn cynnwys:

- eu parodrwydd i dreulio amser gyda'm cydweithwyr a minnau, yn rhoi gwybodaeth i ni am faterion allweddol ar adeg sefydlu bwrdd y rhaglen, a'n helpodd, yn ei dro, i nodi blaenoriaethau'r rhaglen;
- cyflwyno canfyddiadau archwilio mewn nifer o gyfarfodydd ffurfiol o fwrdd y rhaglen a'r is-grŵp, a thrwy hynny ein helpu i nodi'r materion allweddol roedd angen i ni roi sylw iddynt; a
- rhannu'r gwersi a ddeilliodd o waith yr arolwg o ddefnyddwyr gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd mewn modd a olygai eu bod yn gallu cyflwyno'r gwersi hynny i'w sefydliadau.'

Dyfyniad o adborth gan gyn-Gyfarwyddwr Cenedlaethol Bwrdd y Rhaglen Iechyd Meddwl



# Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011

Cynigiodd yr adroddiad hwn drosolwg o'r toriadau cyllidebol mewn termau real na welwyd eu tebyg o'r blaen y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu dros y cyfnod gwario cyfredol ac ystyriodd yr heriau penodol a wynebai sectorau unigol, yn benodol y GIG a llywodraeth leol.

Tynnodd yr adroddiad sylw at yr heriau o ran arweinyddiaeth a wynebai gwasanaethau cyhoeddus. Yn benodol, nodwyd bod angen ymgysylltu â'r cyhoedd, a all yn aml fod ag amheuon a phryderon ynglŷn â newidiadau i wasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, ac ymgysylltu â staff i sicrhau bod prosesau trawsnewid yn llwyddiant ar yr un pryd ag y maent yn wynebu gostyngiadau mewn swyddi a chyflogau wedi'u rhewi. Cafodd *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011* ei groesawu'n gyffredinol fel dadansoddiad amserol a defnyddiol a bu'n sbardun i gryn dipyn o ddadlau gwleidyddol. Yn benodol, canolbwyntiodd trafodaethau ar yr angen am ddiwygiadau radical i'r GIG a hefyd yr angen i gynllunio'r gweithlu yn fwy effeithiol mewn ymateb i'r lleihad mewn swyddi yn y sector cyhoeddus. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, lansiodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad, gan gymryd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn y GIG.

Bu diddordeb eang a helaeth yn yr adroddiad, gyda'r cynnwys yn cael ei ddarllen ar-lein mewn 25 o wledydd gwahanol.




# Canllaw i leihau costau

Mae ein canllaw ar-lein i leihau costau yn nodi fframwaith ar gyfer gwneud a gweithredu penderfyniadau i leihau costau, ac mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol o Gymru a thu hwnt. Mae hefyd yn dwyn ynghyd ymchwil a chanllawiau o nifer o ffynonellau, ac yn cyfeirio'r darllenydd at gyngor pellach.

Ymhlith y meysydd a gwmpesir mae:

- ymgysylltu â'r cyhoedd a staff wrth bennu blaenoriaethau a nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion;
- sefydlu ffordd strategol a realistig o wneud arbedion effeithlonrwydd a chyllidebu ar sail blaenoriaethau sy'n ystyried yr effeithiau ar ddinasyddion a gwasanaethau eraill; a
- mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi dewisiadau anodd ar waith a dysgu o brofiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y canllaw ar ein gwefan Cyfnewidfa Arfer Da.





# Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru


Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Mae ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, yn nodi'r ffaith, er bod llawer o denantiaid wedi gweld gwelliannau sylweddol yn ansawdd eu tai, na fydd nod gwreiddiol Llywodraeth Cymru y byddai'r holl dai cymdeithasol yn cyrraedd SATC erbyn diwedd 2012 yn cael ei gyflawni.


Canfuom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n ddigon cyflym i gefnogi a monitro cynnydd, ac nad oedd wedi rhoi fframwaith effeithiol ar waith i ddangos gwerth am arian. Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr holl opsiynau polisi sydd ar gael i helpu i oresgyn y rhwystrau i gyflawni SATC, ac yn pwysleisio'r gwersi cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ran datblygu, monitro a gwerthuso polisïau.

Defnyddiodd ein gwaith sylfaen dystiolaeth eang, gan gynnwys canlyniadau ymarfer monitro gan Lywodraeth Cymru, ein harolwg o landlordiaid tai cymdeithasol ac ymweliadau â hwy, gweithdai gyda chynrychiolwyr tenantiaid a dadansoddiad o'r costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo stoc.

Ym mis Mawrth 2012, cymerodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ran mewn gweithdy yng nghynhadledd y Sefydliad Tai Siartredig *TAI 2012* yng Nghaerdydd i drafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad.




'Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cyngor a'ch cymorth adeiladol wrth i ni lunio ein dull gweithredu a'r cynllun ei hun, a werthfawrogir yn fawr iawn.'

Dyfyniad o adborth gan brif weithredwr awdurdod unedol

'Mae llywodraeth leol yn gwerthfawrogi gallu'r Archwilydd Cyffredinol i siarad yn ddi-ofn ac mae ei annibyniaeth oddi ar unrhyw ymyrraeth wleidyddol neu'r llywodraeth o werth hanfodol.'

Dyfyniad o adborth gan Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Asesiadau gwella llywodraeth leol

Bob blwyddyn rydym yn cynnal asesiadau gwella ac yn cyflwyno adroddiadau ar ba mor dda yw trefniadau awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru ar gyfer gwella'r ffordd y darperir eu gwasanaethau ac y cyflawnir swyddogaethau eraill.

Cyhoeddwyd canlyniadau ein hasesiadau gwella, ynghyd â chrynodebau o bob darn arall o waith perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, mewn 28 o adroddiadau gwella blynyddol ar wahân ar ddechrau 2012. Cafodd yr adroddiadau gryn sylw yn y cyfryngau.

Gwnaethom argymhellion statudol i saith awdurdod unedol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi datganiad gweithredu o fewn 30 diwrnod i dderbyn ein hadroddiad. Hefyd gwnaethom gynigion ar gyfer gwelliant ym mhob awdurdod mewn meysydd y nodwyd gennym fod angen rhoi sylw iddynt, gan gynnwys adroddiadau ar berfformiad, trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym yn parhau i wneud gwaith dilynol ar ein hargymhellion a'n cynigion ar gyfer gwella, a byddwn yn adrodd yn ôl i'r awdurdodau ar eu cynnydd.

Ymgynghorwyd hefyd â llywodraeth leol ar gynigion i ddiwygio'r ffordd rydym yn asesu gwelliant. Ar gyfer 2012-13 byddwn yn cyflwyno rhaglen dreigl o asesiadau corfforaethol manwl, ar sail cylch pedair blynedd. Rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill i sicrhau bod hunanasesu cadarn a chraffu allanol yn gwneud cyfraniadau i'r broses gyffredinol o asesu perfformiad llywodraeth leol sy'n ategu ei gilydd.

Tîm Arolygu Arbennig Sir Penfro
Huw Rees, Gwilym Bury, Dave Rees,
Susan Morgan a Ena Lloyd



# Arolygiad Arbennig o Gyngor Sir Penfro

Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i gynnal arolygiad arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir Penfro. Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol wneud hynny ar ôl i Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gyhoeddi dau adroddiad beirniadol ar faterion a oedd yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc.

Cyhoeddodd ein tîm ei adroddiad ar 30 Ionawr 2012. Canfuom, er bod y Cyngor yn dangos rhai agweddau cadarnhaol mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i amgylchedd gweithredu, fod gormod o anffurfioldeb a diffyg her gyson effeithiol wedi arwain at lai o atebolrwydd. Roedd angen gwelliannau i sicrhau y gall y Cyngor gynnal trosolwg digonol gan wleidyddion a rheolwyr a dwyn pobl i gyfrif mewn ffordd briodol.

Mewn ymateb i'n harolygiad rhoddodd y Cyngor gynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'n hargymhellion. Ers hynny, rydym wedi cynnal adolygiad o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol i ystyried ymhellach ddiffygion o ran polisi ac arfer a nodwyd gan AGGCC ac Estyn. Bwriadwn gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith hwn ar ddiwedd mis Gorffennaf 2012. At hynny, roeddem wedi bwriadu cynnal ailarolygiad llawn o'n gwaith llywodraethu ym mis Hydref 2012. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2012 mynegodd Gweinidogion bryder ynglŷn â'r cynnydd araf gan y Cyngor i ymdrin â'r materion a godwyd gan AGGCC, Estyn ac adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Yn sgil cais gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu cynnal ein hailarolygiad yn yr haf gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Medi 2012.



## Gwaith iechyd lleol

Cynhaliwyd rhaglen fanwl o waith archwilio perfformiad lleol mewn byrddau iechyd ac yn ymddiriedolaethau'r GIG yn ystod 2011. Roedd hyn yn cynnwys ail flwyddyn o 'asesiadau strwythuredig'. Ystyriwyd y cynnydd a wnaed gan gyrff y GIG i fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a nodwyd gennym yn 2010 mewn perthynas â'u trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol.

Roedd yn amlwg bod cyrff y GIG yn gwneud cynnydd yn y meysydd lle roedd archwilwyr wedi nodi problemau. Fodd bynnag, er bod llawer o gyrff y GIG yn llwyddo i sicrhau arbedion sylweddol, roedd y gwaith o gyfyngu ar gostau a sicrhau'r holl arbedion a nodwyd yn y cynlluniau gwella costau yn profi'n her wirioneddol. Mae ein hadroddiad ar *Gyllid Iechyd* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn ystyried y materion hyn yn fanylach.

Cynhaliwyd hefyd adolygiad integredig o'r cynnydd a wnaed o ran datblygu gwasanaethau gofal heb ei drefnu a gwasanaethau i gleifion â chyflyrau cronig. Yn benodol, edrychwyd ar y cynnydd o ran rheoli'r galw ar wasanaethau ysbyty, a datblygu dewisiadau amgen yn lle derbyn claf i'r ysbyty.

Bu llywodraethu gwybodaeth a seilwaith TG hefyd yn rhan o'n rhaglenni lleol o waith archwilio perfformiad, ar ffurf archwiliadau o ansawdd data ac adolygiadau o drefniadau cyrff y GIG i ymdrin ag achosion difrifol o amharu ar systemau TG.

## Archwilio awdurdodau'r heddlu

Yn dilyn ein hadroddiad ar y cyd yn 2010 *Cynnal Gwerth am Arian yng Ngwasanaeth yr Heddlu*, cynhaliwyd cyfres o adolygiadau dilynol yn 2011 ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ym mhob un o awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Trefnwyd ein gwaith ar y cyd drwy gydol 2011, er mwyn osgoi dyblygu a lleihau effaith ymweliadau ag awdurdodau.

Mae heddluoedd yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol, ynghyd â goblygiadau posibl i blismona rheng flaen a gwasanaethau cyhoeddus eraill y maent yn gweithio gyda hwy yng Nghymru. Canolbwyntiodd ein hadolygiadau yn 2011 ar wneud cynnydd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid gwasanaethau tra'n cynnal gwasanaethau plismona rheng flaen. Mae ein hadroddiadau yn tynnu sylw at y ffaith bod awdurdodau heddlu yng Nghymru, ar y cyfan, yn ymateb i'r heriau a wynebant, a bod ganddynt gynlluniau clir a record dda o reoli ariannol.

# GWAITH ARDYSTIO GRANTIAU, A CHEISIADAU AM ARIAN O GRONFA GYFUNOL CYMRU

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Mae grantiau yn ffynhonnell allweddol o ariannu yng Nghymru, ac, o gymharu â Lloegr, gwneir llawer mwy o ddefnydd o grantiau fel dull ariannu. Wrth ddyfarnu grantiau, mae cyllidwyr yn gosod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n eu derbyn ddefnyddio'r arian at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig ac o dan reolaethau llym.

Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed.

Yn 2011-12, ardystiwyd 40 o gynlluniau llywodraeth leol gennym, a oedd yn werth tua £3 biliwn ac yn cynnwys dros 800 o hawliadau unigol. O ganlyniad i'n gwaith, bu'n rhaid addasu un o bob pedwar o'r hawliadau hynny (er mwyn cywiro gwall) neu roi barn amodol (er mwyn nodi anghytundeb neu ansicrwydd ynglŷn â rhan o'r gwariant a hawliwyd). Gwnaed addasiadau gwerth £1.6 miliwn gros ac roedd newidiadau a ddeilliodd o farn amodol yn werth hyd at £30 miliwn. Ardystiwyd hefyd hawliadau gwerth tua £300 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

## Adroddiad cenedlaethol ar Reoli Grantiau yng Nghymru

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddwyd ein hadroddiad Rheoli *Grantiau yng Nghymru*. Yn yr adroddiad hwn dygwyd ynghyd sylwadau archwilwyr ynglŷn â'n gwaith ar ardystio hawliadau a gwaith arall ers i Swyddfa Archwilio Cymru gael ei sefydlu yn 2005.

Nodwyd y gwersi a ddysgwyd o achosion proffil uchel blaenorol ac ailddatganwyd bod llywodraeth leol, ar wahân i nifer fach o awdurdodau enghreifftiol, yn dal i weinyddu grantiau yn wael iawn. Gwnaethom nifer o argymhellion i gyllidwyr hefyd.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau dysgu ar y cyd gennym ym maes rheoli grantiau ym mis Mehefin 2012, ar gyfer swyddogion datblygu ac adfywio cymunedol awdurdodau unedol a swyddogion cyfatebol o'r cynghorau gwirfoddol sirol yn y sector gwirfoddol, ac yna cyflwynwyd y pwyntiau dysgu allweddol i Lywodraeth Cymru.

Yn 2012-13 byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar y cylch cyfredol o arian strwythurol Ewropeaidd, gan ystyried y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i weinyddu'r rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a gwerthuso eu heffaith.




## Craffu ar geisiadau am arian o Gronfa Gyfunol Cymru

Cronfa Gyfunol Cymru yw'r prif gyfrwng o dderbyn a dosbarthu arian ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Darperir y rhan fwyaf o'r arian a delir i'r gronfa gan Lywodraeth y DU, fel y'i hawdurdodir gan Senedd y DU. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo pob taliad a wneir o'r gronfa, sy'n golygu gwirio bod y taliadau arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a, lle y bo'n briodol, awdurdodiad cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r symiau dan sylw yn rhai mawr - dros £1 biliwn y mis yn ystod 2011-12. Llwyddwyd i brosesu'r rhan fwyaf o geisiadau o dan Gronfa Gyfunol Cymru ar yr un diwrnod ag y daethant i law, ac ymdriniwyd ag unrhyw anghysondebau mewn ceisiadau fel mater o flaenoriaeth.

# PARU DATA




## Y Fenter Twyll Genedlaethol


Ym mis Mai 2012, cyhoeddwyd canfyddiadau Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 gennym. Caiff ei chynnal bob dwy flynedd i baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus.

Ers i ni gyflwyno adroddiad ar Fenter 2008-09, mae wedi helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth £6 miliwn, ac ers i'r fenter ddechrau yng Nghymru mae dros £22 miliwn i gyd wedi'i nodi. Ymhlith yr achosion o dwyll a nodwyd roedd hawliadau ffug am fudd-dal tai, pensiynau sector cyhoeddus a disgowntiau treth gyngor. Arweiniodd ymarfer paru'r Fenter at ddiddymu 2,016 o ostyngiadau treth gyngor anghymwys a nodi arbedion o £2.9 miliwn (gan gynnwys blaen arbedion) i bwrs y wlad o ran gostyngiadau treth gyngor a ddyfarnwyd i bobl nad ydynt yn gymwys. Arweiniodd yr ymarfer hefyd at ganslo 1,135 o drwyddedau parcio bathodyn glas a 5,522 o drwyddedau teithio rhatach lle nad oedd y derbynwyr yn gymwys i'w cael mwyach. Erlynwyd 54 o unigolion am droseddau a oedd yn ymwneud â thwyll.

### Enghraifft o astudiaeth achos

Ymchwiliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i achos o baru data rhwng budd-dal tai a chyflogres. Nodwyd bod hawliwr yn cael budd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor a budd-dal analluogrwydd. Nid oedd yr hawliwr wedi datgan ei fod mewn gwaith. Ymchwiliodd y Cyngor i'r achos ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfaddefodd yr hawliwr ei fod wedi methu â datgan incwm o'i gyflogaeth. Gordalwyd dros £11,500 o ganlyniad i hynny. Mae'r Cyngor a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd camau i adennill y gordaliad. Mae erlyniad yn yr arfaeth.

### Arbedion a nodwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru £miliwn



# GWEITHIO GYDAG ERAILL I RANNU DYSGU



Tîm Maeth Cleifion
Delyth Lewis, Gabby Smith, Kate Febry,
Dave Thomas, Malcolm Latham, Steve Lisle a Phil Jones

## Helpu i hyrwyddo maeth da ymhlith cleifion yn yr ysbyty

Yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad cenedlaethol *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* ym mis Mawrth 2011, parhawyd i gefnogi gwelliant mewn gwasanaethau a rhannu arfer da yn y maes hwn. Cyhoeddwyd dwy daflen gysylltiedig gennym yn 2011-12. Mae'r gyntaf, *Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr hyn y dylech ei ddisgwyl*, wedi'i hanelu at roi gwybodaeth bwysig i gleifion a gofalwyr ynglŷn â sut y dylai anghenion bwyd a maeth cleifion yn yr ysbyty gael eu diwallu. Mae cynnwys y daflen lwyddiannus hon bellach wedi'i ymgorffori yn y rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yn ei rhoi i gleifion am eu harhosiad yn yr ysbyty. Mae ail daflen yn nodi'r cwestiynau allweddol y dylai aelodau o fyrddau iechyd eu gofyn ynglŷn â'u gwasanaeth lleol er mwyn cael sicrwydd bod y gwasanaethau hyn yn dilyn canllawiau cenedlaethol ac arfer gorau cydnabyddedig.

Er mwyn hyrwyddo'r broses o rannu arfer da, cynhaliwyd seminar dysgu ar y cyd hefyd ym mis Medi 2011. Daeth dros 60 o gynadleddwyr o bob rhan o GIG Cymru ynghyd yn y digwyddiad, gan gynnwys cymysgedd o ymarferwyr o'r holl ddisgyblaethau gwahanol ym maes arlwyo a maeth cleifion yn yr ysbyty, er mwyn rhannu eu profiad ar weithredu ar argymhellion yr adroddiad cenedlaethol.

'Fe glywes i am sawl syniad newydd a gobeithio y galla i eu defnyddio neu eu haddasu i wella pethau'n lleol.'

'Roedd yn gyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol eraill o bob rhan o Gymru. Rydym i gyd yn wynebu heriau tebyg ond yn dod o hyd i atebion gwahanol. Roedd yn braf cael rhannu hyn!'

Dyfyniadau o adborth gan gynadleddwyr

## Sesiynau datblygu byrddau a phwyllgorau archwilio'r GIG

Yn ystod 2011, cynhaliwyd rhaglen o weithdai datblygu rhyngweithiol gydag aelodau o bwyllgorau archwilio a byrddau cyrff y GIG yng Nghymru. Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddechrau, cyn cyflwyno'r gweithdai yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill Cymru.

Defnyddiodd y gweithdai astudiaethau achos go iawn i nodi sut beth yw modelau effeithiol o lywodraethu a sicrwydd bwrdd, a'r hyn a all ddigwydd os nad yw'r rheolaethau hyn ar waith ac mae pethau'n mynd o chwith.

Ar thema gysylltiedig, ac ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, hwyluswyd diwrnod datblygu i ysgrifenyddion byrddau cyrff y GIG hefyd. Caiff yr hyn a ddeilliodd o'r diwrnod ei ddefnyddio gan Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau i ddatblygu ymhellach fframweithiau sicrwydd bwrdd effeithiol yn y GIG yng Nghymru.

'Ar ran y Pwyllgor Archwilio hoffwn ddiolch i chi am arwain y gweithdy datblygu llywodraethu diweddar, a gafodd dderbyniad da iawn ac a ychwanegodd gryn werth i wella ein trefniadau rheoli. Fel y trafodwyd yn y cyfarfod, i'r Bwrdd Iechyd mae'r gweithdy yn cynnig manteision sy'n mynd y tu hwnt i'r Pwyllgor Archwilio oherwydd y ffordd mae ein pwyllgorau wedi'u strwythuro; felly hoffem pe baech yn cynnal y gweithdy eto ar gyfer gweddill aelodau ein Bwrdd. Unwaith eto, diolch am eich amser a gweithdy symbylol iawn.'

Dyfyniad o adborth gan gyfarwyddwr bwrdd iechyd

## Hyfforddiant llywodraethu i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf

Yn dilyn rhai methiannau proffil uchel o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal cyfres o sesiynau hyfforddi i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn 2011 i dynnu sylw at bwysigrwydd llywodraethu da.

Roedd y sesiynau'n agored i unigolion a oedd yn aelodau o bartneriaethau, a chynigiwyd cyfle allweddol i ddeall beth mae llywodraethu da yn ei olygu iddynt hwy a beth gallant ei wneud i wella trefniadau llywodraethu eu partneriaeth. Bu'r sesiynau yn gyfle hefyd i aelodau ofyn rhai cwestiynau allweddol ynglŷn â llywodraethu a rhannu arfer da gyda'u cymheiriaid.

Cynhaliwyd y sesiynau rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2011 a chawsant dderbyniad da gan y rhai a fu'n bresennol. O ganlyniad i hynny, gofynnwyd i ni drefnu rhagor o sesiynau wrth i raglen newydd Cymunedau yn Gyntaf gael ei chyflwyno o 2012 ymlaen.

'Wedi'i chyflwyno'n dda, anffurfiol a rhyngweithiol.'

'Diddorol - roedd yn trafod llawer o'r pynciau sydd o ddefnydd i fi ac i'r sefydliad rwyf yn gweithio gydag ef.'

Dyfyniadau o adborth gan gynadleddwyr




## Rhoi gwerth ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol

Caiff cyfran fawr o arian cyhoeddus Cymru - dros £4 biliwn bob blwyddyn - ei wario ar brynu cynhyrchion neu wasanaethau gan sefydliadau eraill neu 'caffael'.

Yn 2011-12, sefydlodd Pwyllgor Busnes a Menter y Cynulliad Cenedlaethol grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gallai cyfarwyddeb ddiwygiedig gan yr UE ar gaffael cyhoeddus effeithio ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a cheisio dylanwadu ar ddiwygio polisi caffael cyhoeddus yr UE.

Fe'n gwahoddwyd i gyflwyno sylwadau i'r Grŵp er mwyn llywio ei waith. Rhoddwyd cyflwyniadau byr, fel a ganlyn:

- trosolwg o fframwaith caffael cyfredol yr UE ac effaith bosibl newidiadau arfaethedig;
- trosolwg, yn seiliedig ar ein profiad archwilio, o'r prif feysydd lle mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cael anawsterau i gydymffurfio â'r fframwaith cyfredol; ac
- ein sylwadau ar y ffordd y mae'r fframwaith cyfredol yn effeithio ar werth am arian, a rhai tensiynau annatod sy'n bodoli yn y fframwaith.

## Rhoi gwerth ychwanegol i Lywodraeth Cymru

Yn ystod 2011-12 parhaodd ein staff i roi mewnbwn i Lywodraeth Cymru sy'n mynd y tu hwnt i'n gwaith archwilio craidd (heb beryglu ein hannibyniaeth). Ymhlith yr enghreifftiau roedd:

- cynnal adolygiad archwilio, wedi'i gomisiynu gan yr Adran Addysg a Sgiliau, o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn prosesu ceisiadau myfyrwyr am gyllid;
- cynnal adolygiad archwilio, a gomisiynwyd gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau, o fenthyciadau heb eu cynnal a chronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol;
- cyflwyno sylwadau i'r adolygiad o lywodraethu'r GIG sy'n cael ei gynnal gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd;
- ymgymryd â rôl sylwedydd ar Fwrdd y Prosiect Rheoli Grantiau; a
- chyfrannu at ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu, Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol a digwyddiadau hyfforddi eraill i Lywodraeth Cymru.

**The Good Practice Exchange**
**Y Gyfnewidfa Arfer Da**

**Arfer Da Cymru**
**Good Practice Wales**

## Nodi a throsglwyddo arfer da

Un o'r ffyrdd rydym yn hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus yw drwy nodi a throsglwyddo arfer da. Mae ein Cyfnewidfa Arfer Da yn adnodd ar-lein sydd ar gael am ddim i bawb. Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau wyneb yn wyneb wedi'u targedu, seminarau dysgu ar y cyd fel arfer, sy'n galluogi pobl o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus i gyfnewid gwybodaeth a dysgu'n gyflym.

Yn ystod 2011-12 cynhaliwyd nifer o seminarau dysgu ar y cyd gennym gan gynnwys rhai ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai, a hyrwyddo presenoldeb yn y gwaith (ar y cyd â nifer o bartneriaid). Mae'r gweithgareddau hyn, ynghyd ag eraill, yn parhau i greu astudiaethau achos a rennir drwy ein Cyfnewidfa.

Edrychwyd ar gynnwys ein gwefan tua 110,000 o weithiau yn 2011-12. Rydym wrthi'n adolygu ac yn gwella'r Gyfnewidfa gyda'r nod o lansio fersiwn diwygiedig â galluoedd gwell yn 2013. Er mwyn ei gwneud yn haws i gael gafael ar ein deunydd ar arfer da, a'i ategu ag astudiaethau achos o arfer da o'r tu hwnt i Gymru, rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r porth gwe goodpracticewales.com.

# Cydweithio

Rydym yn ymrwymedig i gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU ac adeiladu ar y cydweithrediad sydd eisoes yn digwydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus. Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda chydweithwyr yn Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gydbrosiectau ac er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth. Yn 2011-12, cyfrannodd Swyddfa Archwilio Cymru at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n amlygu tueddiadau ac amrywiadau allweddol yn y ffordd y darperir gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU.

Ym mis Ionawr 2011, llofnododd y pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru – Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – gytundeb strategol a oedd yn cynnwys amcanion allweddol ar gyfer cydweithredu gwell. Yn 2011-12, er mwyn cefnogi'r amcanion hynny, aethpwyd ati ar y cyd i wneud y canlynol:

- datblygu a lansio gwefan 'Arolygu Cymru';
- cytuno ar brotocol a chynllun rhannu gwybodaeth i ddatblygu adnodd diogelu i staff ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth;
- nodi a chytuno ar y pynciau adolygu cenedlaethol y bydd yr arolygiaethau yn cydweithredu arnynt yn ystod 2012-13;
- datblygu elfen ar gydweithio yn rhaglen hyfforddi a sefydlu pob arolygiaeth; a
- chynnal cyfarfod seminar rhwng penaethiaid yr arolygiaethau a Chyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth Cymru i drafod meysydd o ddiddordeb a phryder i bawb.

# Gwaith rhyngwladol

O bryd i'w gilydd rydym yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith. Mae ein gwaith rhyngwladol hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ein gwybodaeth am dechnegau cyfrifyddu ac archwilio a meithrin sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein gwaith. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny gefnogi ein strategaeth fusnes, y dylent fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

Mae dau o'n staff wedi gweithio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2011-12 ar archwiliad o sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig. Gweithiodd y ddau aelod o staff ar nifer o aseiniadau mewn sawl gwlad fel rhan o gytundeb yn y tymor hwy i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymsefydlu fel asiantaeth archwilio sector cyhoeddus sydd â sgiliau y gellir eu trosglwyddo i wledydd eraill. Yn ystod y flwyddyn, ymwelodd dirprwyaethau o nifer o endidau sector cyhoeddus o dramor, gan gynnwys Tsieina, Canada, Ethiopia a Lithwania, â'n swyddfeydd er mwyn cael gwybod am drefniadau llywodraethu yng Nghymru a sut rydym yn cynnal gwaith archwilio cyhoeddus. Eleni datblygwyd hyn ymhellach drwy drefnu secondiad llwyddiannus o'r tu allan i aelod o staff o Swyddfa Archwilio Genedlaethol Malta i gael gwybod sut rydym yn archwilio perfformiad.

Caiff safonau cyfrifyddu ac archwilio eu trefnu ar sail fyd-eang erbyn hyn. Yn ystod 2011-12, gwnaethom ymateb i chwe ymgynghoriad rhyngwladol ar y safonau hynny, gan helpu i lywio datblygiad gwaith cyfrifyddu a gwaith archwilio cyhoeddus ar y llwyfan ehangach yn y dyfodol.

# YMATEB I FATERION A DDYGWYD I'N SYLW

Gall gohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon am fusnes cyhoeddus lywio ein rhaglen waith drwy nodi materion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Ein polisi yw ymateb yn ddi-oed i bryder cyhoeddus mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

Yn 2011-12, mewn ymateb i ohebiaeth benodol, dechreuwyd ar adolygiad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei pherthynas â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA).

Daeth y Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd (y Ddeddf) i rym yn 1998 i ddiogelu cyflogeion sydd am leisio pryder am rywbeth sy'n digwydd yn y gwaith mewn modd cydwybodol. O dan y Ddeddf, caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo ym maes llywodraeth leol eu cydnabod fel 'personau rhagnodedig' a all dderbyn datgeliadau gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir am weinyddu busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn ymdrin â phryderon o'r fath yn ddi-oed ac yn effeithiol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi trefniadau ar waith fel y gall unigolion godi eu pryderon yn gyfrinachol gyda staff profiadol wedi'u hyfforddi. Yn ystod blwyddyn galendr 2011, derbyniwyd chwe datgeliad gan gyflogeion neu gyn-gyflogeion cyrff a archwilir drwy ein trefniadau chwythu'r chwiban ac ymchwiliwyd iddynt.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol am unrhyw achos o drin elw troseddau (gwyngalchu arian) y daw ef neu'i staff ar ei draws yn ystod eu gwaith.

## Cynghorau Cymuned Clydach a Mawr – adroddiadau er lles y cyhoedd

Ym mis Rhagfyr 2011, ar ôl ymchwilio i bryderon a godwyd gan archwilwyr penodedig ac aelod o'r cyhoedd, cyhoeddwyd dau adroddiad er lles y cyhoedd gennym. Tynnwyd sylw at fethiannau mewn trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol mewn dau gyngor cymuned yn y de dros gyfnod o chwe blynedd.

Nododd yr adroddiadau fod clerc y ddau Gyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheolaeth ariannol y Cyngor ac wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu cywir yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r methiannau yng Nghlydach a Mawr yn ddwy enghraifft amlwg o blith sawl achos mawr o afreoleidd-dra a nodwyd gan archwilwyr mewn cynghorau cymuned a thref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. At hynny, mae nifer annerbyniol o uchel o gynghorau yn methu â sicrhau eu bod yn cwblhau eu datganiadau ac yn eu hanfon at yr archwilydd yn brydlon neu'n methu ag ymateb yn briodol i ymholiadau archwilio. O ganlyniad, nid ydym yn fodlon bod gan y sector yn ei gyfanrwydd drefniadau llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith ar hyn o bryd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynigion ar gyfer trefniadau archwilio gwell ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'r trefniadau newydd arfaethedig yn cynnwys cynnal archwiliad manylach o bob cyngor o leiaf bob pum mlynedd. Byddai'r dull gweithredu newydd yn ceisio rhoi sicrwydd cadarnach na fydd y fath fethiannau a nodwyd yng Nghlydach a Mawr yn parhau.

# FFOCWS EIN GWAITH YN Y DYFODOL

# EIN BLAENRAGLEN O ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN

Ym mis Ionawr 2012, cyflwynwyd papur briffio i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn manylu ar y rhaglen gyffredinol o astudiaethau rydym yn ei chynnal ar hyn o bryd ac y disgwyliwn gyhoeddi adroddiadau yn eu cylch erbyn diwedd 2012-13. Rhoddir crynodeb o'r prosiectau hyn isod:

**Cyllid y GIG** – sy'n ystyried sut mae'r GIG wedi cyflawni cydbwysedd ariannol yn y gorffennol a'r heriau a wyneba'r GIG yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor wrth iddo geisio cyflawni cydbwysedd ariannol mewn amgylchedd o doriadau ariannol mewn termau real.

**Arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-13** – sy'n ystyried cynnydd o ran cyflawni rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ac sy'n asesu a ydynt ar y trywydd cywir i sicrhau'r buddiannau a ddisgwylir, ochr yn ochr ag ystyried y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i weinyddu'r rhaglenni a gwerthuso eu heffaith.

**Hysbysu gofal iechyd** – sy'n ystyried a grëwyd y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd i lwyddo a'r cynnydd a gaiff ei wneud i gyflawni'r buddiannau a fwriedir.

**Gwireddu buddiannau'r contract â meddygon ymgynghorol y GIG** – bydd yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau gwaith archwilio lleol i ystyried effeithiolrwydd trefniadau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol yn y gwaith o gyflawni buddiannau bwriadedig y contract â meddygon ymgynghorol.

**Gofal iechyd ledled y DU** – rydym yn cyfrannu at brosiect a gaiff ei arwain gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac sydd hefyd yn cynnwys Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, i ystyried gwahaniaethau mewn strwythurau, blaenoriaethau, perfformiad a chanlyniadau gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU.

**Argyfyngau sifil yng Nghymru** – bydd yr adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru fynd i'r afael â materion cynllunio at argyfwng a rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith.

**Addysg plant sy'n derbyn gofal** – bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a yw'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi bod yn ddigonol i wella'n sylweddol ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn perthynas â Choetir Ffynone a Chilgwyn (gwaith dilynol)** – bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y cynnydd a wnaed gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a, lle y bo'n briodol, Lywodraeth Cymru, o ran gweithredu'r argymhellion amrywiol ym mhedwar adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Gofal iechyd parhaus** – bydd yr adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd a'u partneriaid o ran gweithredu'r fframwaith gofal iechyd parhaus Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (gwaith dilynol)** – ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, bydd yr adroddiad dilynol hwn yn ystyried a yw camau priodol wedi'u cymryd i ddileu neu leihau'r risgiau a nodwyd mewn adroddiad blaenorol.

**Ymateb i gyfyngiadau ariannol** – bydd yr astudiaeth hon yn adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu harian i sicrhau gwelliannau yn yr hinsawdd economaidd heriol hon.

**Caffael gwasanaethau ymgynghori** – drwy nodi meysydd lle gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio ymgynghorwyr mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol, nod yr astudiaeth hon yw amlygu cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu, nodi enghreifftiau o arfer da a helpu i lywio'r broses o gyflawni a datblygu strategaethau cenedlaethol yn y meysydd hyn.

**Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru** – bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y broses o gyflawni Cam I o'r rhaglen i nodi a gyflawnodd Llywodraeth Cymru amcanion y rhaglen mewn ffordd a oedd yn gynaliadwy ac yn sicrhau gwerth am arian.

Yng ngoleuni agenda bolisi Llywodraeth Cymru sy'n datblygu, ac o ystyried sut mae ein rhaglen waith yn gyson â gwaith cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio eraill, mae ein cynigion ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn 2012-13 yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
- Rheoli meddyginiaethau
- Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector
- Athrawon cyflenwi
- Cynllunio'r gweithlu yn y sector cyhoeddus a rheoli'r lleihad yn y gweithlu
- Grantiau i ffermwyr

## Ein strategaeth gorfforaethol

Rydym ar fin cwblhau'r gwaith o ddrafftio strategaeth gorfforaethol newydd i Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y strategaeth yn cynnwys ein nod cyffredinol a'n hamcanion allweddol, strategaeth ariannol yn y tymor canolig a strategaeth ar gyfer y gweithlu, ac amlinelliad o'n rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Bydd y strategaeth hefyd yn nodi'r meysydd allweddol o waith gwella y byddwn yn ymgymryd â hwy er mwyn cyflawni ein hamcanion allweddol, a sut y byddwn yn monitro ac yn cyflwyno adroddiadau ar ein perfformiad.

## Goblygiadau Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

Cyhoeddwyd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gan Lywodraeth Cymru ar 9 Gorffennaf 2012. Er nad oes unrhyw effaith uniongyrchol ar weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru o ddydd i ddydd, mae i'r Bil nifer o oblygiadau pwysig o ran y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i strwythuro, ein cynlluniau gwaith yn y dyfodol a datblygiad ein strategaeth.

Bwriad datganedig y Bil yw 'atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth allweddol yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried pa bynnag bynciau a ddewisir ganddo'. Ar hyn o bryd mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:

- sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol â bwrdd;
- trosglwyddo pob aelod i gyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru o dan delerau ac amodau sy'n gyson yn fras â staff Llywodraeth Cymru; a
- nodi'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Efallai y bydd y broses o ddeddfu yn cymryd tua blwyddyn.

# Ein hamcanion cydraddoldeb

Ym mis Ebrill 2012 cyhoeddwyd *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* sy'n nodi'r pethau allweddol y bwriadwn eu gwneud drwy ein gwaith i helpu i ddileu achosion o wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb o ran ein gwaith allanol yn y dyfodol yn cynnwys ceisio barn pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig a'i hystyried wrth benderfynu pa waith gwerth am arian y byddwn yn ymgymryd ag ef, pennu cwmpas y gwaith hwnnw a llunio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath.

# Archwiliadau o ddatblygu cynaliadwy

Ym mis Gorffennaf 2011, cynhaliodd yr uwch dîm rheoli sesiwn gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i drafod y ffordd orau o gyfrannu at yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy ein gwaith archwilio. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y goblygiadau ymarferol i waith archwilio cyhoeddus yn sgil y bwriad i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol llywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gwaith y grŵp hwn yn llywio cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys cynnig i roi dyletswydd i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o ddatblygu cynaliadwy.

# Rhoi sicrwydd ar strwythurau newydd yr heddlu

O fis Tachwedd 2012, bydd comisiynwyr heddlu a throsedd a etholwyd yn uniongyrchol yn cymryd lle awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Bydd comisiynwyr heddlu a throsedd yn gyfrifol am gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol yn eu hardal, ac am ddwyn prif gwnstabliaid i gyfrif am gyflawni cynlluniau heddlu a throsedd. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau trosiannol hyn yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth, rydym yn parhau i weithio gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i roi sicrwydd ar strwythurau newydd yr heddlu.

# EIN SEFYDLIAD

# EIN POBL


Mae ein gweithlu medrus a phroffesiynol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth archwilio cyhoeddus o safon uchel i bobl Cymru. Ar ddiwedd blwyddyn 2011-12, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflogi 254 o staff yn uniongyrchol (219 o staff parhaol cyfwerth ag amser cyflawn).

## Demograffeg

Oedran canolrif cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2012 oedd 45 mlwydd oed, sef yr un oedran â chyflogeion y gwasanaeth sifil yn 2011[1]. Roedd llai na dau y cant o'r staff o dan 25 oed, o gymharu â thua phump y cant ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU yn ei gyfanrwydd a thua 15 y cant yn y sector preifat[2].


Ym mis Ebrill 2012 cynhaliwyd arolwg monitro amrywiaeth gennym. Ymatebodd tua dwy ran o dair o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, roedd 4.9 y cant yn dweud eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heblaw am 'gwyn', o gymharu â'r amcangyfrif o boblogaeth Cymru yn 2009 sef 4.1 y cant[3]. Dywedodd 60 y cant eu bod yn Gristnogion a nododd 28 y cant 'dim crefydd'.

## Oedran a rhyw cyflogeion





1 Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Gyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil
2 Ffynhonnell: *Estimating differences in public and private sector pay – 2012*, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
3 Ffynhonnell: Gwefan StatsCymru

## Grŵp ethnig datganedig




## Crefydd a chredo datganedig




## Cydraddoldeb, amrywiaeth ac urddas yn y gwaith

Nod yr Archwilydd Cyffredinol yw hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol, fel cyflogwr a thrwy ei swyddogaethau statudol. Mae'n ceisio cyflawni rhwymedigaethau statudol perthnasol, ond hefyd annog arfer da fel bod cyflogeion presennol a darpar gyflogeion yn cael eu trin yn gadarnhaol ac yn gyson.

Yn yr un modd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi'n llawn yr hawl sydd gan bawb i gael eu trin ag urddas a pharch yn y gwaith ac mae'n ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pob unigolyn (ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith) ac sy'n rhydd rhag pob math o aflonyddu a bwlio.

Yn 2011-12 sefydlwyd grŵp mewnol â diddordeb ar gyfer cydraddoldeb a oedd yn cynnwys trawstoriad o staff â diddordeb mewn cynrychioli barn pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gan y grŵp rôl barhaus i lywio'r ffordd y caiff polisïau a gweithdrefnau newydd a diwygiedig y swyddfa eu datblygu a'u hasesu, gan gynnwys ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

## Trosiant

Roedd ein cyfradd drosiant yn 2011-12 yn debyg i gyfradd drosiant llafur ganolrifol y sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus hynny a ymatebodd i arolwg blynyddol 2011 CIPD o gynllunio adnoddau a thalent (8.5 y cant).

| Blwyddyn | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|
| Trosiant | 2.76% | 12.36% | 8.30% |

# Recriwtio archwilwyr dan hyfforddiant a thechnegwyr archwilio


Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant sydd wedi'i achredu â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol[4], mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio archwilwyr dan hyfforddiant a thechnegwyr.

Penodwyd chwe archwilydd dan hyfforddiant a thri thechnegydd archwilio ym mis Hydref 2011, ac rydym wedi recriwtio tri archwilydd dan hyfforddiant a phedwar technegydd arall yn ddiweddar. Byddant yn dechrau eu contractau hyfforddi ym mis Medi 2012. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Mae archwilwyr dan hyfforddiant a thechnegwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith ac ar yr un pryd yn astudio am gymhwyster cyfrifyddu proffesiynol cydnabyddedig. Yn ystod eu hyfforddiant, maent yn treulio amser yn gweithio gyda gwahanol dimau archwilio o fewn ffrydiau archwilio ariannol ac archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru, gan wneud cyfraniad allweddol i'n llwyddiant cyffredinol.

# Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Gwelwyd gostyngiad o 12 y cant yn nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd gan bob aelod o staff ar gyfartaledd yn ystod 2011-12 gyda'r gwelliant mwyaf sylweddol yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd cyfnodau o absenoldeb hirdymor (24 y cant).




Cyflawnwyd y gostyngiad hwn yn rhannol drwy fabwysiadu dull mwy strwythuredig a rhagweithiol o reoli absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys ymyriad iechyd galwedigaethol ar gam cynnar, cefnogi staff yn fwy effeithiol yn ystod cyfnodau anodd o salwch, y defnydd o gyfweliadau ar ôl dychwelyd i'r gwaith a rhaglenni dychwelyd yn raddol, a rhoi mwy o wybodaeth fanwl, hyfforddiant a chymorth i reolwyr llinell reoli absenoldeb oherwydd salwch.

4 Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA).

## Lles

Yn ystod 2011-12, cymerwyd rhan mewn amrywiaeth o ymgyrchoedd cenedlaethol i hyrwyddo lles ac iechyd a oedd yn annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff.

Mae rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael hefyd, sy'n rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol am ddim i staff ac aelodau o'r teulu drwy wasanaeth cwnsela dros y ffôn sydd ar gael 24 awr y dydd bob dydd, yn ogystal â chyfle i siarad â chynghorwyr arbenigol.

## Dysgu a datblygu

Y llynedd parhawyd i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o weithgarwch dysgu a datblygu parhaus i helpu ein staff i gyflawni eu gwaith. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei ddylunio a'i ddarparu'n fewnol, ond lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, defnyddiwyd hyfforddwyr allanol i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol ac fel arfer ar ein safle.

Ym mis Mawrth 2012 lansiwyd yr ail gam o *Ignite* sef ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth a rheoli. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau drwy reoli a chymell timau'n effeithiol, ac mae'n cyfuno gweithgarwch yn yr ystafell ddosbarth â gwaith maes ar astudiaethau achos.

Parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd i annog a chefnogi staff i wneud cais i gymryd rhan yn ysgolion haf blynyddol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Yn 2011 sefydlwyd grŵp staff mewnol i adolygu ein system arfarnu perfformiad gyfredol a nodi meysydd i'w gwella. Yn dilyn ymchwil a thrafodaethau gyda sampl o sefydliadau perfformiad uchel yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, mae'r grŵp wedi cynnig nifer o welliannau i'n system, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno system arfarnu perfformiad ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13.

## Ymgysylltu â chyflogeion

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod pwysigrwydd a buddiannau ymgysylltu â chyflogeion yn effeithiol.

Ar ddechrau 2012 cynhaliwyd arolwg staff gennym drwy ddefnyddio'r un dulliau ag a ddefnyddiwyd yn 2010, gan gynnwys gofyn am naratif a hunanddehongli gan y rhai a oedd yn cymryd rhan. Bu'n adnodd pwerus sydd wedi ein galluogi i nodi'r materion allweddol a nodwyd gan staff a mesur sut maent yn teimlo ynghylch gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Yn bwysicach na dim, mae'n helpu i'n cyfeirio at flaenoriaethau gwella ac yn ein helpu i ddeall sut y gellid cyflawni'r rhain.

Mae nifer o faterion sy'n ymwneud â 'newid diwylliannol' wedi codi o arolwg 2012, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu â chyflogeion a'u grymuso, ochr yn ochr â'r angen i adolygu effeithiolrwydd rhai prosesau busnes allweddol.

Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan ddefnyddio cymorth allanol.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i helpu i sefydlu Mudiad Ymgysylltu â Chyflogeion ledled Cymru, fel rhan o'n cyfraniad at rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Yn ddiweddar cynhaliwyd digwyddiad a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau sydd wedi cael eu cydnabod am ragoriaeth mewn ymgysylltu â chyflogeion.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatgeliadau o dan ein Siarter fewnol ar gyfer Chwythu'r Chwiban yn ystod 2011-12, siarter sy'n nodi'r trefniadau i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru sydd am godi pryderon ynglŷn ag ymddygiad neu gamweddau.

# DATBLYGU CYNALIADWY

Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Rydym yn ymrwymedig i gynnwys datblygu cynaliadwy ymhob rhan o'n gwaith archwilio, yn ogystal â'r ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i gynnwys datblygu cynaliadwy ymhellach yn y ffordd rydym yn cynnal ein busnes mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

# Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd


Yn 2011-12, cafodd ein prif swyddfeydd i gyd eu hailachredu ar Lefel 3 Safon Amgylcheddol Draig Werdd Groundwork Cymru i gydnabod ein systemau a'n gweithdrefnau rheoli amgylcheddol. Yn 2012-13 rydym yn anelu at gyrraedd Lefel 4 o'r Safon.

Yn ystod 2011-12, gwnaethom gynnydd sylweddol o ran lleihau ein heffaith amgylcheddol:

- Buddsoddwyd mewn cyfarpar fideo-gynadledda newydd a chyflwynwyd meddalwedd cynadledda pen desg yn llwyddiannus. O ganlyniad i hynny cynyddodd ein defnydd o fideo-gynadledda (gan gynnwys cynadledda pen desg) 42 y cant arall (yn dilyn cynnydd o 67 y cant yn 2010-11).
- Llwyddwyd i leihau ein teithiau mewn car 114,467 o filltiroedd; sy'n cyfateb i ostyngiad o 15.9 y cant mewn allyriadau $CO_2$ mewn blwyddyn, a bron draean ers 2009-10.
- Llwyddwyd i leihau ein defnydd o nwy a thrydan o swm sy'n cyfateb i ostyngiad o 8,807 kg mewn allyriadau $CO_2$ neu dri y cant.
- Llwyddwyd i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gennym bob blwyddyn 22 y cant, a bron draean ers 2009-10. Ar yr un pryd, y llynedd llwyddwyd i ostwng cyfran y gwastraff a anfonwyd i'w dirlenwi gennym bron bump y cant.
- Er bod ein defnydd o bapur wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae dipyn yn is na lefelau 2009-10 (17.3 y cant). Mae'r holl bapur a brynwn yn bapur wedi'i ailgylchu.

Penodwyd nifer o staff yn 'hyrwyddwyr' amgylcheddol hefyd i'n helpu i fwrw ymlaen â mentrau amgylcheddol a chynaliadwyedd, ac rydym wedi cyhoeddi cylchlythyr mewnol sy'n hyrwyddo mesurau cynaliadwyedd.

# Allyriadau nwyon tŷ gwydr



# Adroddiad ar gynaliadwyedd

| Blwyddyn | 2011-12 | 2010-11 | 2009-10 | Amrywiant rhwng 2010-11 a 2011-12 | Amrywiant rhwng 2009-10 a 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y defnydd o ddŵr** | | | | | |
| Y defnydd o ddŵr ($m^3$) | 1,643[5] | 1,606 | 2,142 | 2.3% | -23.3% |
| Costau cyflenwi dŵr (£) | 2,703 | 2,365 | 4,408 | 14.3% | -38.7% |
| **Y defnydd o bapur** | | | | | |
| Y defnydd o bapur (rimiau) | 2,465 | 2,445 | 2,980 | 0.8% | -17.3% |
| Costau cyflenwi papur (£) | 5,989 | 5,627 | 5,687 | 6.4% | 5.3% |
| **Gwastraff** | | | | | |
| Cyfanswm gwastraff nad yw'n beryglus (kg) | 108,387 | 139,207 | 160,670 | -22.1% | -32.5% |
| Papur a chardbord a ailgylchwyd | 13,455 | 15,820 | 22,800 | -14.9% | -41.0% |
| Caniau, gwydr, plastigion a ailgylchwyd | 21,170 | 22,792 | 23,372 | -7.1% | -9.4% |
| Cyfarpar amldro ee, ffonau symudol | 84 | 1,385 | 16 | -93.9% | 425.0% |
| Tirlenwi | 73,678 | 99,210 | 114,482 | -25.7% | -35.6% |
| Tirlenwi (% o gyfanswm y gwastraff) | 68.0 | 71.3 | 71.3 | -4.6% | -4.6% |
| Gwastraff peryglus (kg) | 0 | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Cyfanswm costau gwaredu (£) | 9,447 | 13,934 | 10,730 | -32.2% | -12.0% |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau $CO_2$ (kg) | 548,810 | 604,394 | 654,869 | -9.2% | -16.2% |
| Y gellir eu priodoli i deithiau busnes | 264,562 | 311,339 | 386,104 | -15.0% | -31.5% |
| Mewn car | 249,184 | 296,179 | 367,269 | -15.9% | -32.2% |
| Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr | 15,378 | 15,160 | 18,835 | 1.4% | -18.4% |
| Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni | 284,248 | 293,055 | 268,765 | -3.0% | 5.8% |
| Trydan | 283,534 | 285,388 | 260,558 | -0.6% | 8.8% |
| Nwy | 714 | 7,667 | 8,207 | -90.7% | -91.3% |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes (£) | 213,394 | 223,606 | 292,743 | -4.6% | -27.1% |
| Cyfanswm gwariant ynni (£) | 56,828 | 52,011 | 40,729 | 9.3% | 39.5% |

5 Amcangyfrif oherwydd cyfnod bilio

## Effeithlonrwydd ac arbedion

Mae'n ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus ddangos effeithlonrwydd a gwerth am arian, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn eithriad yn hyn o beth. Rydym yn ymrwymedig i arwain drwy esiampl ac i adolygu a herio ein gwariant a'n harferion gwaith drwy'r amser er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol.

Rydym wedi llwyddo i arbed dros £1 filiwn yn ein cyllideb yn 2011-12 drwy leihau costau a gwella effeithlonrwydd (gweler yr adran Adolygiad Ariannol am wybodaeth bellach).

## Effeithlonrwydd ein hystad

Eleni cynhaliwyd asesiad o effeithlonrwydd ein hystad yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Darperir dangosyddion perfformiad ar dair lefel wahanol. Mae'r dangosydd lefel uchaf yn cyfrifo'r effeithlonrwydd cyffredinol wedi'i fynegi fel cost fesul cyflogi sy'n gyfwerth ag amser llawn (WTE). Mae pob lefel ddilynol yn rhoi manylion ynglŷn â chyfansoddiad y lefel flaenorol.

Ar hyn o bryd rydym tua phump y cant yn llai effeithlon na Llywodraeth Cymru[6] yn gyffredinol o ran y defnydd o'n hystad, ond 20 y cant yn fwy effeithlon na Llywodraeth y DU[7]. Bwriadwn wneud gwelliannau pellach yn y maes hwn, yn enwedig o ran ein costeffeithlonrwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Effeithlonrwydd cyffredinol (cost fesul WTE) £3,667 | Costeffeithlonrwydd (cost fesul $m^2$) £260 | Rhent fesul $m^2$ £132 |
| | | Cyfraddau fesul $m^2$ £57 |
| | | Costau eraill[8] fesul $m^2$ £71 |
| | Effeithlonrwydd o ran gofod (gofod fesul WTE) 13.4 $m^2$ | Gofod fesul gweithfan 14.1 $m^2$ |
| | | Gweithfannau fesul WTE 0.95 |

6 Fel adroddiad Llywodraeth Cymru *Cyflwr yr Ystad 1 Ebrill 2010 hyd at 31 Mawrth 2011*.
7 Fel adroddiad Llywodraeth EM *The State of the Estate in 2011*.
8 Yn cynnwys taliadau gwasanaeth a chostau gwaith atgyweirio a chynnal a chadw mewnol, diogelwch, glanhau, ynni, dŵr a charthffosiaeth.




Tîm Ras am Fywyd Swyddfa Archwilio Cymru

# Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal yn y gymuned, gwaith amgylcheddol a phrosiectau cadwraeth, codi arian i brosiectau cymunedol ac elusennau, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus. Gall staff hefyd gymryd rhan mewn cynllun 'rhoi wrth ennill'.

Yn 2011-12 cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau mewnol i godi arian at achosion elusennol, gan gynnwys er cof am gydweithiwr a fu farw o ganser.




## Gweithio gyda'r trydydd sector

Mae *Ignite*, sef ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth, yn cynnwys ymarfer astudiaeth achos fyw, lle mae'n rhaid gweithio gydag elusen neu sefydliad arall yn y trydydd sector. fMae'r astudiaeth achos fel arfer yn cynnwys adolygiad dwys o wasanaeth a datrys heriau penodol.

Ym mis Mawrth 2012, gweithiodd ein staff a oedd yn cymryd rhan yn *Ignite* gyda Busnes yn y Gymuned, sef elusen a arweinir gan fyd busnes sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo arfer busnes cyfrifol, ac sy'n gweithio gyda chwmnïau i'w cysylltu â'r gymuned leol er mwyn mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac amgylcheddol.

At hynny, ar ddechrau 2012, cysylltwyd â nifer o gyrff yn y trydydd sector sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig a cheiswyd eu barn ar ein hamcanion drafft ar gydraddoldeb a'n *Cynllun Cydraddoldeb Strategol*.

'O dan raglen *Ignite* ymgymerwyd ag asesiad dwys a phenodol o fodel newydd posibl o ddarparu gwasanaethau Busnes yn y Gymuned. Yn ystod y cyfnod cyn yr wythnos o ddadansoddi ac adborth, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn drwyadl ac yn broffesiynol a rhoddwyd trosolwg ardderchog o'r ffordd y byddai'r rhaglen yn cael ei chyflawni a'r hyn a ddisgwylid gan y tîm.

Yn ystod yr wythnos, cafwyd tîm cadarn yn rhoi sylw manwl i fater penodol ac yn ceisio mewnbwn cywir ac adborth gan ein rhanddeiliaid y cytunwyd i'w targedu. Ar ôl i'r tîm gwblhau'r adroddiad a chyflwyno'r canfyddiadau, cawsom ddadansoddiad treiddgar, craff a pherthnasol, yn ein barn ni, a oedd yn cynnig syniadau newydd ynglŷn â sut i weithredu yn y dyfodol.'

Dyfyniad o adborth gan Gyfarwyddwr Cymru Busnes yn y Gymuned



Tîm Cyhoeddi a Chyfathrebu
Jo Perfect, Llio Rhys, Sarah Cosgrove, Rhian Power, Michael Jones, Ben Parker a Keiren David

# BOD YN AGORED A THRYLOYW

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd rydym yn gweithredu fel busnes a'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a gafodd ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O dan y Cynllun rydym yn ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd – am ragor o wybodaeth gweler ein gwefan.

Yn y flwyddyn ariannol 2011-12 daeth 47 o geisiadau am wybodaeth i law. Llwyddwyd i brosesu 91 y cant o'r ceisiadau hyn o fewn y terfyn amser statudol. Daeth un cais am adolygiad mewnol i law, a llwyddwyd i ymdrin â'r cais hwnnw o fewn 17 diwrnod gwaith. Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau yn 2011-12 gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

PAC(4)-19-12 Paper 1

# ADOLYGIAD ARIANNOL

# CANLYNIAD ARIANNOL

Caiff gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arian o Gronfa Gyfunol Cymru, ffioedd archwilio a godir ar gyrff a archwilir a chyfraniadau gan gwmnïau sydd ar gontract. Crynhoir canlyniadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011-12 fel a ganlyn:

| | | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Incwm ac adnoddau** | | | |
| Ffioedd archwilio ac arolygu: | Llywodraeth leol | 13,213 | 13,391 |
| | Y GIG | 4,029 | 4,181 |
| | Llywodraeth ganolog | 1,669 | 1,604 |
| CRONFA GYFUNOL CYMRU* | | 5,403 | 5,047 |
| Incwm arall | | 27 | 258 |
| ***Cyfanswm yr incwm*** | | 24,341 | 24,481 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | | 14,855 | 16,086 |
| Gwasanaethau allanol | | 3,507 | 3,379 |
| Costau gweithredu eraill | | 5,354 | 2,993 |
| Treth gorfforaeth | | (23) | 13 |
| ***Cyfanswm y gwariant*** | | 23,693 | 22,471 |
| Gwarged a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn | | 648 | 2,010 |
| Addasiadau o'r flwyddyn flaenorol | | 0 | (1,336) |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (1,945) | (629) |
| Gwahaniaeth rhwng adnoddau ac arian parod Cronfa Gyfunol Cymru | | (100) | 0 |
| Balans y gronfa gyffredinol a ddygwyd ymlaen | | 162 | 117 |
| Balans y gronfa gyffredinol a gariwyd ymlaen | | (1,235) | 162 |

* Mae'n cynnwys £550,000 a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant o £96,000 o dan y cynllun ymadael gwirfoddol.


Mae'r warged gyffredinol a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,403 | 5,047 |
| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (4,755) | (3,037) |
| Gwarged net a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn | 648 | 2,010 |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | 0 | (1,336) |
| Gwarged net ar ôl addasiad o'r flwyddyn flaenorol | 648 | 674 |


Dangosir y prif ffynonellau o arian yn ystod 2011-12 yn y siart ganlynol. Ceir rhagor o wybodaeth am ein hincwm yn Nodiadau 2 a 3 i'r cyfrifon.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio'r cronfeydd hyn i dalu ein staff a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i wneud eu gwaith. Dangosir y prif feysydd gwariant yn ystod y flwyddyn yn y siart ganlynol. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwariant yn Nodiadau 4, 6 a 7 i'r cyfrifon.

Ariannu




Gwariant



## Sylwadau ar y canlyniadau

Yn erbyn cyfanswm incwm o tua £24.3 miliwn ar gyfer 2011-12, cynhyrchwyd gwarged weithredu net o £648,000 neu 2.7 y cant (ar ôl neilltuo £2,605,000 ar gyfer rhwymedigaethau treth posibl) (fel y'u datgelwyd yn Nodyn 15) (2010-11: yn erbyn cyfanswm incwm o £24.5 miliwn cynhyrchwyd gwared weithredu net o £2,010,000 a ddefnyddiwyd yn bennaf i ariannu addasiadau o £1,336,000 o'r flwyddyn flaenorol).

Mae nifer o ffactorau wedi ein galluogi i gynhyrchu gwarged o'r fath yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Lleihad o £1.0 miliwn mewn gwariant gweithredu blynyddol arferol, sy'n codi o raglen o reoli costau'n weithredol a newidiadau yn arferion gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.
- Cynnydd o £1.4 miliwn mewn ffrydiau incwm sy'n deillio o'r gwaith ychwanegol y bu'n ofynnol i ni ymgymryd ag ef neu y cawsom ein comisiynu i'w wneud yn ystod y flwyddyn.
- Tanwariant o £0.45 miliwn yn erbyn Cynnig Cyllidebol Atodol 2011-12 i gymeradwyo £0.55 miliwn i ariannu'r cynllun ymadael gwirfoddol. Roedd llai o staff wedi manteisio ar y cynllun hwn na'r disgwyl. O ganlyniad, costiodd y cynllun £0.35 miliwn, yr ariannwyd £0.25 miliwn o'r swm hwnnw o adnoddau presennol Swyddfa Archwilio Cymru (fel y'u nodwyd yn ein hamcangyfrif atodol) ac felly dim ond £0.1 miliwn o'r amcangyfrif atodol a oedd ei angen i ariannu'r cynllun hwn. Mae'r elfen o'r amcangyfrif atodol nas gwariwyd yn cael ei dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'i chadw gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym wedi nodi mewn adroddiadau blynyddol ac amcangyfrifon blaenorol bod trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi bod yn mynd rhagddynt ers nifer o flynyddoedd ynglŷn â statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol. At hynny, yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi nodi rhai pryderon ynglŷn â statws treth treuliau teithio a delir i rai grwpiau o gyflogeion. Rydym hefyd yn trafod y mater hwn gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Yn seiliedig ar gyngor proffesiynol allanol, rydym wedi cynnwys darpariaeth o £2.6 miliwn yn y cyfrifon mewn perthynas â'r rhwymedigaethau treth posibl hyn.

Rydym wedi nodi o'r blaen y byddai angen i ni gael rhagor o arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu gynyddu ein ffioedd archwilio fwy na thebyg i fodloni unrhyw rwymedigaeth sylweddol a allai godi mewn perthynas â statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, drwy lwyddo i reoli ein cyllid, rydym wedi gallu neilltuo arian ar gyfer y rhwymedigaeth hon heb fod angen i ni ofyn am adnoddau ychwanegol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw. Er bod y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn dangos diffyg net o £1,235,000 ar 31 Mawrth 2012 (£162,000 ar 31 Mawrth 2011), rydym yn fodloni bod gennym ddigon o arian i fodloni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## Atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol

Fel y nodir yn y Datganiad o Alldro Adnoddau, mae swm arian parod o £1.945 miliwn yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Ein rheolaeth ariannol

Yn ystod 2011-12, llwyddwyd i wella ein trefniadau rheoli ariannol drwy gysoni cyfrifoldebau am reoli cyllidebol a chyfrifoldebau gweithredol yn well, a hefyd wella'r wybodaeth reoli a roddwyd i ddeiliaid cyllidebau. Bwriadwn barhau i ddatblygu ein trefniadau rheoli ariannol drwy wneud y canlynol:

- rhoi rhagor o ganllawiau a hyfforddiant i staff;
- datblygu trefniadau i wella'r ffordd rydym yn paratoi ein rhagolygon o lif arian parod;
- cydgysylltu gwaith cynllunio ariannol a busnes yn well drwy Swyddfa Archwilio Cymru;
- gwelliannau pellach yn ein gwybodaeth reoli; a
- chynyddu ein hadnoddau byrdymor i helpu i gyflawni'r trefniadau rheoli ariannol gwell hyn.

Rydym wrthi'n datblygu strategaeth ariannol yn y tymor canolig hefyd, a fydd yn ein cynorthwyo gyda'n gwaith cynllunio hyd at 2016.

## Risg ac ansicrwydd

Mae'r sector cyhoeddus yn dal i wynebu heriau digyffelyb i raddfa, cwmpas a sefyllfa ariannol ei weithrediadau. Rydym yn ymateb i'r heriau hyn drwy geisio rhagor o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd er mwyn cyfyngu ar ein ffioedd archwilio a'r galwadau ar Gronfa Gyfunol Cymru cymaint â phosibl. Drwy ein gwaith ar gynllunio'r gweithlu sy'n mynd rhagddo, rydym yn ceisio sicrhau bod gennym y nifer gywir o staff sy'n meddu ar y sgiliau cywir i ymgymryd â gwaith o safon uchel mewn modd effeithlon. Byddwn yn ystyried cynlluniau ymadael gwirfoddol pellach lle gall y rhain ein helpu i gyflawni'r amcan hwn.

Fel yr esboniwyd uchod, rydym wedi cynnwys darpariaethau yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau TAW a TWE hanesyddol posibl. Cyfrifwyd y rhwymedigaethau hyn yn unol â'r cyngor proffesiynol annibynnol a roddwyd i Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn parhau i drafod y materion hyn gyda Chyllid a Thollau EM ac felly nid ydym yn gallu bod yn sicr ynghylch a fydd y rhwymedigaethau hyn yn crisialu, ac os ydynt, a fyddant yn cyfateb i'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyfrifon.

## Talu cyflenwyr yn brydlon

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer Talu Gwell ac mae'n ymrwymedig i dalu pob anfoneb gan gyflenwyr nad oes dadl yn ei chylch o fewn 30 diwrnod. Yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2012, talwyd 97.8 y cant o'r anfonebau nad oedd dadl yn eu cylch o fewn 30 diwrnod (2010-11: 96.1 y cant).

## Archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru

Penododd y Cynulliad Cenedlaethol RSM Tenon fel archwilydd allanol cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol am gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2011-12.

Mae'r holl wybodaeth archwilio berthnasol wedi'i darparu i'r archwilwyr allanol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi sicrhau bod yr archwilwyr allanol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

PAC(4)-19-12 Paper 1

# DATGANIAD CYFRIFON

# ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH

# POLISI CYDNABYDDIAETH

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, daw o Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

## Aelodau pwyllgorau

Caiff cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol.

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â deddfwriaeth caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol benodi unrhyw staff sydd eu hangen yn ei farn ef i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff telerau cydnabyddiaeth staff eraill Swyddfa Archwilio Cymru eu pennu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Ymgynghorir ag undebau llafur ynghylch cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn unol â chydgytundeb.

## Fframwaith pwyllgor llywodraethu'r Archwilydd Cyffredinol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, wedi sefydlu fframwaith pwyllgor llywodraethu a arweinir gan aelodau anweithredol sy'n cynnwys Bwrdd Cysgodol (y Bwrdd) i'w helpu i roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol yn Swyddfa Archwilio Cymru a'i gynghori. Mae'r Bwrdd yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol fel y gwêl yn briodol wrth arfer ei swyddogaethau ac yn monitro'r ffordd y mae'n gweithredu mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny. Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ar 23 Mawrth 2012.

Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu tri phwyllgor llywodraethu cyn hynny a oedd yn cwmpasu Archwilio a Rheoli Risg, Adnoddau, a Chydnabyddiaeth sy'n cael eu hystyried yn is-bwyllgorau'r Bwrdd ac mae pob un o'r pwyllgorau hyn yn gweithredu yn unol â'i gylch gorchwyl ei hun.

# Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn rhoi cyngor gwrthrychol a diduedd i'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau am reoli risg yn briodol, rheoli a llywodraethu a rhoi sicrwydd cysylltiedig o fewn Swyddfa Archwilio Cymru.

# Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn rhoi cyngor gwrthrychol a diduedd i'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau am faterion sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru. Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2011 a chynhaliwyd y cyfarfod ffurfiol cyntaf ym mis Hydref 2011.

# Pwyllgor Adnoddau

Mae'r Pwyllgor Adnoddau yn rhoi cyngor gwrthrychol a diduedd i'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli adnoddau yn Swyddfa Archwilio Cymru. Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2011 a chynhaliwyd y cyfarfod ffurfiol cyntaf ym mis Hydref 2011.

# MANYLION TALIADAU CYDNABYDDIAETH

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Codir costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid Swyddfa Archwilio Cymru sy’n eu talu. Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi’r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Ms Gillian Body oedd yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 12 Chwefror 2010 a 30 Medi 2010.

Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2011-12 oedd £150,000 (2010-11: £142,850 - Mr Huw Vaughan Thomas: £75,000 a Ms Gillian Body: £67,850) a chost pensiwn y cyflogwr oedd £20,700 (2010-11: £27,838 - Mr Huw Vaughan Thomas: £11,350 a Ms Gillian Body: £16,488).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Gwnaed cyfanswm o £22,425 o gyfraniadau i’r cyfrif hwn yn ystod 2011-12 (gan gynnwys £20,700 gan y cyflogwr a £1,725 gan yr aelod) (2010-11: £12,833 hy, £11,350 o gyfraniadau gan y cyflogwr a £1,483 o gyfraniadau gan yr aelod).

Caiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ei harchwilio.

## Uwch reolwyr

Caiff y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod 2011-12 roedd yn cynnwys y canlynol:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i’r swydd | Dyddiad gorffen | Contract |
|---|---|---|---|---|
| **Gillian Body**[1] | 02/09/1981 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Anthony Barrett** | 24/01/2001 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Kevin Thomas** | 26/10/1992 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |

1 Ms Gillian Body oedd yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 12 Chwefror 2010 a 30 Medi 2010.

Adolygir perfformiad pob un o aelodau’r Pwyllgor Gweithredol ddwywaith y flwyddyn. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw 12 wythnos. Pe byddai contract unigolyn yn cael ei derfynu’n gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai’n cael iawndal am golli ei swydd.

# Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth mewn perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Gweithredol, ac eithrio'r Archwilydd Cyffredinol.

| | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012** | | | | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 Wedi'i hailddatga** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Buddiannau mewn da (sef ceir ar brydles, treuliau a thaliadau graddfa tanwydd)** | **Cyfanswm** | **Cyfraniad pensiwn** | **Cyflog** | **Buddiannau mewn da (sef ceir ar brydles, treuliau a thaliadau graddfa tanwydd)** | **Cyfanswm** | **Cyfraniad pensiwn** |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 |
| **Gillian Body** | 115-120 | 0 | 115-120 | 27.5-30.0 | 55-60 | 0 | 55-60 | 12.5-15.0 |
| **Anthony Barrett** | 110-115 | 18,900 | 130-135 | 27.5-30.0 | 110-115 | 20,100 | 130-135 | 27.5-30.0 |
| **Kevin Thomas** | 95-100 | 21,600 | 120-125 | 22.5-25.0 | 95-100 | 23,500 | 120-125 | 22.5-25.0 |
| **Band cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (£'000)** | 130-135 | | | | | | 130-135 | |
| **Cyfanswm canolrifol (£)** | 42,612 | | | | | | 42,400 | |
| **Cymhareb cydnabyddiaeth** | 3.109 | | | | | | 3.125 | |
| **Cyfanswm cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol (£'000)** | 150 | | | | | | 150 | |
| **Cyfanswm canolrifol (£)** | 42,612 | | | | | | 42,400 | |
| **Cymhareb cydnabyddiaeth** | 3.52 | | | | | | 3.54 | |

Fel y datgelwyd yn Nodiadau 15 a 19, mae'r cyfrifon yn cynnwys darpariaeth a rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer setliad TWE posibl gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi oherwydd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithredu TWE mewn perthynas â rhai treuliau a dalwyd i rai grwpiau o staff. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys trethiant a chyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i Kevin Thomas ac Anthony Barrett a gwerth gros taliadau graddfa tanwydd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r rhwymedigaethau treth mewn perthynas â'r buddiannau ychwanegol sy'n deillio o'r adolygiad o TWE.

Ailddatganwyd ffigurau'r flwyddyn flaenorol i gynnwys treuliau a thaliadau graddfa tanwydd lle y bo'n berthnasol.

Ni thalwyd bonysau i unrhyw aelodau o staff.

# Manylion pensiwn uwch reolwyr

| | Cynnydd gwiion-eddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cynnydd gwiion-eddol mewn cyfandal-iad | Pensiwn ar 31 Mawrth 2012 | Cyfanda-liad ar 31 Mawrth 2012 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2011 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo | CETV ar 31 Mawrth 2012 | CETV ar 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bands of £2,500 | Bands of £2,500 | Bands of £5,000 | Bands of £5,000 | Bands of £5,000 | £000's | £000's | £000's |
| **Gillian Body** | 0-2.5 | 0-2.5 | 50-55 | 160-165 | 40-45 | 0 | 981 | 922 |
| **Anthony Barrett** | 0-2.5 | - | 25-30 | - | 25-30 | 1 | 383 | 338 |
| **Kevin Thomas** | 0-2.5 | - | 35-40 | - | 30-35 | 11 | 461 | 413 |

Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yn ystod 2011-12. Cyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2011 a 31 Mawrth 2012 gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Mae ffigurau CETV ar 31 Mawrth 2011 yn wahanol i'r ffigurau cyfatebol yn Adroddiad Cydnabyddiaeth y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

# Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Y CETV yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'u cyfalafu'n actiwaraidd. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n cyfeirio at daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall lle mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau CETV, a'r manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac y mae'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil wedi cael taliad trosglwyddo amdanynt sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n gysylltiedig. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid.

# Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Y cynnydd gwirioneddol mewn CETV yw'r cynnydd a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Aelodau pwyllgorau

Mae manylion cydnabyddiaeth aelodau Pwyllgorau fel a ganlyn:

| | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | | Pwyllgor Adnoddau | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 £ | 2010-11 £ | 2011-12 £ | 2010-11 £ | 2011-12 £ | 2010-11 £ | 2011-12 £ | 2010-11 £ |
| **Peter Laing – Cadeirydd**[1] | 7,250 | 11,650 | | | | | 7,250 | 11,650 |
| **Yr Athro David Hands**[2] | 3,804 | 5,000 | | | | | 3,804 | 5,000 |
| **Haydn Warman** | 5,000 | 5,000 | | | | | 5,000 | 5,000 |
| **Denver Lynn**[3] | Dim | Dim | | | | | Dim | Dim |
| **Rosamund Blomfield-Smith**[4] | 1,250 | 5,000 | 5,083 | Dim | | | 6,333 | 5,000 |
| **Michael Heap**[5] | | | 3,750 | Dim | | | 3,750 | Dim |
| **Dr Elizabeth Haywood**[5] | | | 3,750 | Dim | | | 3,750 | Dim |
| **Y Canon David Stanton**[5] | | | 3,750 | Dim | | | 3,750 | Dim |
| **Dr Michael P Brooker**[6] | 1,250 | 5,000 | | | 5,083 | Dim | 6,333 | 5,000 |
| **Steven Burnett**[5] | | | | | 3,750 | Dim | 3,750 | Dim |
| **Dr Arun Midha**[5] | | | | | 3,750 | Dim | 3,750 | Dim |
| **Mary Champion**[5] | | | | | 3,750 | Dim | 3,750 | Dim |
| **Cyfanswm** | **18,554** | **31,650** | **16,333** | **Dim** | **16,333** | **Dim** | **51,220** | **31,650** |

1 Mae Mr Laing yn cael £7,250 fel Cadeirydd y pwyllgor hwn. Cafodd dâl cydnabyddiaeth ychwanegol yn ystod 2010-11, a gynhwysir yn y ffigurau uchod, am ragor o waith a gomisiynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.
2 Tynnodd yr Athro Hands yn ôl o'r Pwyllgor ar 4 Ionawr 2012.
3 Mae Mr Lynn yn Gyfarwyddwr sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Ni chafodd unrhyw dâl cydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am fod yn aelod o'r pwyllgor hwn.
4 Bu Mrs Blomfield-Smith yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Gorffennaf 2011 pan ddaeth yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac fe'i penodwyd wedyn yn Gadeirydd ym mis Awst 2011.
5 Penodwyd aelodau newydd o'r pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2011.
6 Bu Dr Brooker yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Gorffennaf 2011 pan ddaeth yn aelod o'r Pwyllgor Adnoddau ac fe'i penodwyd wedyn yn Gadeirydd ym mis Awst 2011.

Mae aelodau pwyllgorau yn cael contractau am ddwy neu dair blynedd i ddechrau a gellir eu hymestyn am gyfnod pellach yn amodol ar berfformiad boddhaol a/neu gydsyniad y naill ochr a'r llall. Ni chaniateir i aelod pwyllgor wasanaethu am fwy na saith mlynedd. Gall aelodau pwyllgorau hawlio am eu treuliau teithio a chynhaliaeth yn ychwanegol at y ffioedd uchod; mae'r rhwymedigaeth dreth bersonol sy'n gysylltiedig â thaliadau o'r fath wedi'i bodloni gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb TWE â Chyllid a Thollau EM.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2012

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Cafwyd cyfarwyddyd newydd ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2010-11 ac erys mewn grym. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol yn ogystal ag incwm a gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 16(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano; am gadw cyfrifon cywir; am weinyddu mewn modd pwyllog a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael mewn modd effeithlon ac effeithiol, eu nodi yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2011-12

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd sefydlu trefniadau priodol i dderbyn sylwadau a chyngor ffurfiol ar ansawdd trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y maent yn gweithredu, gan gynnwys drwy gyfraniadau allanol annibynnol ac yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â risg a rheolaeth ac o ran fy ymddygiad i ac ymddygiad fy staff.

Disgrifir cwmpas llawn fy nghyfrifoldebau yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel yr Archwilydd Cyffredinol a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Archwilydd Cyffredinol, fi yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu rwyf yn penodi archwilwyr iddynt. Rwyf hefyd yn ystyried sut mae'r cyrff hyn yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys a ydynt yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon rwyf yn annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (ac i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin). Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau ac yn penodi fy archwilydd allanol.

Diffinnir Swyddfa Archwilio Cymru drwy statud fel yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nid yw'n endid cyfreithiol: breinir pob pŵer, hawl a dyletswydd yn yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, wrth reswm, ni allaf wneud pob penderfyniad busnes ac rwyf wedi sefydlu trefniadau ar gyfer arfer awdurdod ar fy rhan.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w dwyn i gyfrif am ei gweithgareddau. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn bosibl i Swyddfa Archwilio Cymru fonitro sut mae'n cyflawni ei hamcanion strategol ac i werthuso a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly mae'n rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith pe caent eu gwireddu, a rheoli'r risgiau hynny yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau sy'n ein hwynebu, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Mae fy fframwaith llywodraethu wedi'i sefydlu mewn canllawiau mewnol sy'n cael eu hadolygu ac sydd wrthi'n cael eu diweddaru i gyfrif am fy nhrefniadau diwygiedig sy'n parhau i ddatblygu wrth i mi baratoi'r sefydliad ar gyfer y newid deddfwriaethol arfaethedig.

# Y strwythur llywodraethu

Mae gennyf ddisgresiwn llwyr fel Archwilydd Cyffredinol i bennu'r trefniadau i'w rhoi ar waith i reoli Swyddfa Archwilio Cymru a sicrhau y creffir ar ei gweithrediadau mewn modd effeithiol. Ychydig ar ôl fy mhenodiad yn 2010, cyhoeddais i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fy mod yn bwriadu sefydlu strwythur newydd a fyddai'n cwmpasu mewnbwn annibynnol helaethach. Wrth gyflwyno fy nghynlluniau, cymeradwyais egwyddorion llywodraethu da y Comisiwn Annibynnol er Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

- canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth;
- perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffinnir yn glir;
- datblygu gallu ac adnoddau'r corff llywodraethu i fod yn effeithiol;
- gwneud penderfyniadau hyddysg, tryloyw a rheoli risg;
- hyrwyddo gwerthoedd ar gyfer y sefydliad cyfan a dangos llywodraethu da drwy ymddygiad; ac
- ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau atebolrwydd gwirioneddol.

Bwriedir i'r trefniadau sydd bellach ar waith symud Swyddfa Archwilio Cymru tuag at gydymffurfiaeth â Chod Arfer Da'r llywodraeth ar Lywodraethu Corfforaethol i'r graddau y mae ei ofynion yn berthnasol ac yn ymarferol o gofio'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

# Pwyllgor Gweithredol

Am y cyfnod a gwmpesir yn yr adroddiad hwn, pennwyd fy ngweledigaeth a'm hamcanion yn fy strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2009-12. Rwyf wedi dirprwyo fy awdurdod i'w chyflawni i dri archwilydd cyffredinol cynorthwyol. Gyda'n gilydd ni yw'r Pwyllgor Gweithredol ac rwyf yn ei gadeirio. Drwy'r Pwyllgor hwn y byddaf yn gwneud penderfyniadau strategol a phenderfyniadau polisi ac mae'n gyfrifol am fonitro risgiau strategol allweddol ac am sicrhau y cânt eu rheoli'n effeithiol gyda rheolaethau lliniaru priodol ar waith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r gwerthoedd sefydliadol sy'n llywodraethu gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ac ymddygiad ei staff.

Yn 2011-12 cyfarfu'r Pwyllgor Gweithredol 23 o weithiau, dwywaith bob mis calendr ar gyfartaledd. Cafodd amrywiaeth o wybodaeth i gefnogi ei weithgareddau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor adroddiadau mwy amserol ar gyflawni prosiectau a gwybodaeth arall yr oedd ei hangen i reoli risgiau strategol a gweithredol yn effeithiol.

Tua diwedd y flwyddyn atgyfnerthais y swyddogaeth cynllunio a gwybodaeth reoli i gefnogi a hwyluso cydweithredu rhwng elfennau o'm fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol. Disgwyliaf i'r trefniant hwn arwain at ragor o effeithlonrwydd yn y broses o gasglu a dadansoddi gwybodaeth reoli i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd Cysgodol.

Mae'r archwilwyr cyffredinol cynorthwyol yn atebol i mi am gyflawni eu hamcanion cymeradwy fel y'u disgrifiwyd yn fy nghynllun gweithredol blynyddol ac am sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau yn eu meysydd busnes. Mae pob un yn arwain tîm rheoli o gyfarwyddwyr neu reolwyr gwasanaeth y maent yn neilltuo cyfrifoldeb am gyflawni prosiectau, tasgau a gwasanaethau penodol iddynt ac am reoli risgiau.

Yn ystod y flwyddyn euthum ati i wella eglurder llinellau adrodd yn y tri phrif faes busnes – yr arfer archwilio ariannol, y grŵp archwilio perfformiad a'r gwasanaethau galluogi corfforaethol – a sicrhau bod cyfrifoldebau deiliaid cyllidebau wedi'u cysoni yn unol â hynny.

# Pwyllgorau llywodraethu

Yn 2011-12 cafodd fy mwriad i wella'r trefniadau ar gyfer trosolwg anweithredol annibynnol o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ei wireddu'n llawn yn sgil cyflwyno dau bwyllgor llywodraethu newydd sef y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau. Maent bellach yn gweithredu ochr yn ochr â'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a fu ar waith ers 2005.

Gyda'i gilydd, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor gwrthrychol a diduedd sy'n fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau am reoli risg yn briodol, rheolaeth a llywodraethu ac am roi sicrwydd cysylltiedig yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â chydnabyddiaeth staff a rheoli adnoddau.

Mae gan bob un o gadeiryddion y pwyllgorau llywodraethu hawl fynediad, a gallant godi materion sy'n achosi pryder yn uniongyrchol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol yn cael mynediad dirwystr a chyfrinachol at y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, gan gynnwys drwy sesiwn breifat ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor.

Y trefniadau gwell hyn oedd fy ymateb uniongyrchol i'r gwendidau a gafwyd yn y drefn flaenorol ac rwyf yn parhau i'w datblygu i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn barod ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol a awgrymir yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Yn ystod 2011-12, rhoddais ffocws newydd i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg gan sicrhau y gall gyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithiol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith a chafodd lif reolaidd o waith a'i galluogodd i herio amgylchedd rheoli Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynghori ar unrhyw welliannau angenrheidiol. Yn benodol, ystyriodd wyth adroddiad o sylwedd a baratowyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys yr adolygiadau blynyddol o systemau ariannol craidd ac adolygiadau o ddiogelwch TG, y gyflogres a phensiynau a gweithdrefnau ariannol.

Roedd mewnbwn y Pwyllgor yn arbennig o bwysig o ran herio Datganiad Cyfrifon 2010-11 a baratowyd gennyf yn sgil y gwendidau a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn y broses o lunio'r cyfrifon ac o ran eu camddatganiad perthnasol o sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2005 a 2010. Cadarnhaodd adolygiad manwl y Pwyllgor fod trefniadau llawer gwell ar waith i lunio'r Datganiad o Gyfrifon, gan gynnwys cyflwyno prosesau adolygu mewnol gan gymheiriaid a phrosesau adolygu technegol ffurfiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd ariannol a gofynion rheoleiddio eraill.

Hefyd yn ystod 2011-12, lleihawyd nifer aelodau'r Pwyllgor o chwech i bedwar o ganlyniad i sefydlu'r pwyllgorau llywodraethu newydd. Trosglwyddodd dau aelod i'r pwyllgorau hyn yn dilyn proses recriwtio agored. Tynnodd un aelod arall yn ôl o'r Pwyllgor ym mis Ionawr. Mae'r broses i recriwtio aelod newydd wedi'i chwblhau ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Penodais aelodau i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau ym mis Mai 2011 yn unol ag egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cafodd aelodau ddwy sesiwn sefydlu – ym mis Mehefin a mis Medi – a'u cyfarfodydd cyntaf ym mis Hydref. Gan fod y pwyllgorau wedi dechrau cyfarfod hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol roedd hynny wrth reswm yn cyfyngu ar eu gallu i gynnig cyngor cynhwysfawr ar fy holl gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Fodd bynnag, cymeradwyodd y ddau bwyllgor eu cylch gorchwyl a'u rhaglenni gwaith hyd at 2013.

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bum gwaith, gan gynnwys cyfarfod arbennig lle cafodd ei friffio gan yr undebau llafur sy'n cynrychioli staff Swyddfa Archwilio Cymru. Bu cyngor y Pwyllgor o gymorth i mi wrth i mi gyd-drafod cyflogau â chynrychiolwyr staff ar gyfer 2012-13 ac mae'n llywio gwaith pellach i fireinio trefniadau cyflog a pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor Adnoddau ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Mae ganddo bortffolio amrywiol o gyfrifoldebau ac mae wedi ystyried model Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cynllunio'r gweithlu, wedi rhoi cyngor ar achos busnes rheolwyr dros wella systemau adnoddau dynol/y gyflogres ac wedi adolygu cynlluniau Swyddfa Archwilio Cymru i wella ymhellach ei threfniadau adfer ar ôl argyfwng o ran TGCh.

# Y Bwrdd Cysgodol

Ers i mi sefydlu'r strwythur llywodraethu newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft a fydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn atgyfnerthu ac yn gwella atebolrwydd a threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cynigion hynny yn ymgorffori darpariaethau ar gyfer sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol a reolir gan fwrdd o aelodau anweithredol yn bennaf.

Cyn yr ymgynghoriad hwnnw, sefydlais Fwrdd Cysgodol gyda'r nod o baratoi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr hyn y rhagwelir y bydd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft yn ei gyflwyno. Mae'r Bwrdd yn rhoi cyngor i mi ar nodau ac amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru ac ar ddefnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i'w cyflawni. Mae'r Bwrdd, a gadeirir gennyf, yn cynnwys cadeiryddion y tri phwyllgor llywodraethu a'r archwilwyr cyffredinol cynorthwyol sy'n aelodau o'm Pwyllgor Gweithredol.

Er nad yw hynny wedi'i bennu mewn deddfwriaeth eto, ystyriaf fod y tri phwyllgor llywodraethu yn is-bwyllgorau'r Bwrdd ac mae trefniadau yn yr arfaeth i sicrhau bod y cylch busnes yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol ac effeithlon.

Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2012 pan fabwysiadodd ei gylch gorchwyl sy'n ei gwneud yn ofynnol i'm cynorthwyo a'm cynghori wrth i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.

Yn ei gyfarfod cyntaf cytunodd y Bwrdd hefyd ar y wybodaeth reoli y bydd yn ei chael ym mhob cyfarfod chwarterol a'r trefniadau ar gyfer arfarnu perfformiad aelodau anweithredol o'r Bwrdd a'r pwyllgorau llywodraethu rwyf yn eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau rwyf yn cynnal cofrestr o fuddiannau aelodau sy'n dwyn ynghyd wybodaeth o'r datganiadau o annibyniaeth a gesglir bob blwyddyn ac unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn o ddatganiadau a wneir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae hyn yn sicrhau y caiff achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu nodi cyn cyfarfodydd lle y bo'n ymarferol ac y cymerir camau i'w lliniaru.

Dengys y tabl isod bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn 2011-12:

| | Pwyllgor Gweithredol | Bwrdd Cysgodol | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Pwyllgor Adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | 23 | 1 | 4 | 5 | 2 |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol:** | | | | | |
| Dr Arun Midha | | | | | 2 |
| Yr Athro David Hands[1] | | | 2 | | |
| Y Canon David Stanton | | | | 5 | |
| Denver Lynn | | | 4 | | |
| Dr Elizabeth Haywood | | | | 4 | |
| Haydn Warman | | | 4 | | |
| Mary Champion | | | | | 2 |
| Michael Heap | | | | 5 | |
| Dr Michael Brooker[2] | | 1 | 2 | | 2 |
| Peter Laing | | 1 | 4 | | |
| Rosamund Blomfield-Smith[3] | | 1 | 1 | 5 | |
| Steve Burnett | | | | | 2 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru[4]** | | | | | |
| Anthony Barrett | 22 | 1 | 3 | | |
| Gillian Body | 22 | 1 | 3 | | |
| Huw Vaughan Thomas | 22 | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Kevin Thomas | 21 | 1 | 3 | 4 | 2 |

1 Tynnodd yr Athro Hands yn ôl o'r Pwyllgor ar 4 Ionawr 2012.
2 Bu Dr Brooker yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Gorffennaf 2011 pan ddaeth yn aelod o'r Pwyllgor Adnoddau ac fe'i penodwyd wedyn yn Gadeirydd ym mis Awst 2011.
3 Bu Mrs Blomfield-Smith yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Gorffennaf 2011 pan ddaeth yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac fe'i penodwyd wedyn yn Gadeirydd ym mis Awst 2011.
4 Nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn aelodau o'r pwyllgorau llywodraethu. Byddant yn bresennol i friffio'r pwyllgorau neu gymryd eu cyngor fel y bo angen.

## Y gallu i ymdrin â risg

Y Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn craffu ar drefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau a wynebwn, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Ymgorfforir yr amcan hwn yn ein dulliau gwaith gan gynnwys gweithdrefnau llywodraethu diffiniedig, polisïau rheoli ansawdd, rheolaeth ariannol a systemau i nodi a rheoli risgiau.

Rwyf yn parhau i ddatblygu a gwella'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol sy'n rhoi gwybodaeth reoli briodol ac amserol i mi, fy Mhwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a rheolwyr, sy'n ein galluogi i nodi risgiau sy'n dod i'r golwg ac ymateb iddynt.

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau digyffelyb i raddfa, cwmpas a sefyllfa ariannol ei weithrediadau dros y blynyddoedd i ddod. Er mwyn sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymateb i'r heriau hyn yn briodol, rwyf yn datblygu strategaeth gorfforaethol newydd a fydd yn llywio gwaith cynllunio busnes ac yn helpu i ddiffinio atebolrwydd yn well yn Swyddfa Archwilio Cymru. Bu'n rhaid oedi cyn cwblhau'r strategaeth wrth i mi ystyried goblygiadau Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft i weithrediadau yn y dyfodol.

## Y fframwaith risg a rheoli

O ystyried natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, a rheolaeth ariannol.

Cyflogaf nifer fawr o gyfrifwyr cymwysedig ac aelodau eraill o staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac sy'n rhwym wrth ofynion moesegol eu cyrff proffesiynol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn benodol, cymhwysir Safon Ryngwladol Rheoli Ansawdd 1 i'n holl waith archwilio ariannol.

Caiff y gwaith o reoli ansawdd archwiliadau ei hwyluso drwy ein proses archwilio a'r oruchwyliaeth hierarchaidd sydd ar waith o fewn prosiectau unigol. Mae gennym hefyd system o adolygiadau mewnol ac allanol. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Gweithredol ar ganlyniadau'r adolygiadau hyn. Mae'r rheolaethau hyn yn berthnasol i waith a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau sector preifat sydd wedi'u contractio i weithio ar fy rhan.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnal cofrestr o risgiau corfforaethol sy'n nodi risgiau strategol a gweithredol a allai effeithio ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni ei nodau a'i hamcanion. Mae'r Pwyllgor yn effro i'r angen i adolygu'r risgiau hyn yn barhaus a delio'n briodol ag amgylchiadau newydd wrth iddynt godi. Mae'r gofrestr gryno o risgiau yn eitem sefydlog ar yr agenda yn ail gyfarfod y pwyllgor bob mis; mae'r Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr fanwl o risgiau bob chwarter, cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac, yn y dyfodol, y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried y gofrestr o risgiau corfforaethol mewn modd cadarnhaol ac wedi cynnig diweddariadau a newidiadau iddi drwy gydol y flwyddyn.

## Datganiad risg gwybodaeth

Ar y cyd â staff Swyddfa Archwilio Cymru, mae gennyf fynediad breintiedig ac eang i ddata a gwybodaeth i'm helpu i gyflawni'r swyddogaeth archwilio a sicrhau bod fy adroddiadau'n ffeithiol, yn gywir ac yn gyflawn. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i barchu'r mynediad breintiedig hwn a sicrhau bod y wybodaeth bersonol a roddir iddi yn cael ei diogelu'n briodol.

I gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Diogelwch Gwybodaeth, sy'n;

- a nodi rhwymedigaethau pob cyflogai mewn perthynas â defnyddio cyfleusterau TGCh Swyddfa Archwilio Cymru;
- b amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer prosesu data;
- c tynnu sylw at brif gyfrifoldebau staff o ran diogelwch;
- ch nodi'r trefniadau ar gyfer gwaith monitro rheolaidd i gadarnhau bod staff yn cydymffurfio â'r gyfraith a pholisi Swyddfa Archwilio Cymru;
- d nodi trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r polisi; ac
- dd egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth a chanllawiau a sut y dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch.

Oni chydymffurfir â'r polisi hwn, gellir cynnal ymchwiliad a chymryd camau eraill yn unol â Pholisi Disgyblu Swyddfa Archwilio Cymru.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ohonynt yn 2011-12.

## Adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad wedi'i lywio gan waith y Pennaeth Archwilio Mewnol, rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac archwilwyr allanol drwy sylwadau yn eu llythyr rheoli.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar drefniadau i reoli risgiau busnes allweddol ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae rheolwyr wedi derbyn ei argymhellion ar gyfer gwelliannau ac maent yn cymryd camau i ymdrin â hwy.

Fel rhan o'i waith ar Ddatganiad Cyfrifon 2010-11, adolygodd yr archwilydd allanol waith y staff Archwilio Mewnol a daeth i'r casgliad ei fod yn cydymffurfio â Safon Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Argymhellwyd hefyd y dylai'r staff Archwilio Mewnol baratoi cynllun gwella gan ddefnyddio Fframwaith Asesu Ansawdd Archwilio Mewnol Trysorlys EM (IAQAF). Yn 2011-12, cynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol hunanasesiad o dan IAQAF a gyfrannodd at ddatblygu cynllun gwella cychwynnol. O 2012-13, a phob blwyddyn wedi hynny, mae'r Pwyllgor Gweithredol ac aelodau'r pwyllgorau llywodraethu wedi'u gwahodd i asesu gwaith Archwilio Mewnol drwy ddefnyddio'r IAQAF. Bydd y canlyniadau'n llywio strategaeth, cynllun blynyddol a chynllun gwella'r staff Archwilio Mewnol.

Ar ôl sefydlu fy strwythur llywodraethu newydd, rwyf yn datblygu fy nhrefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a'u cyfraniad at y broses o gynnal busnes mewn ffordd agored ac atebol. Disgwyliaf roi'r trefniadau hyn ar waith ar sail dros dro yn ystod 2012-13 tra'n aros i Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ac i'w ddarpariaethau gael eu gweithredu.

Mae gwaith fy mhwyllgor gweithredol a'r pwyllgorau llywodraethu wedi'i gefnogi gan fy swyddfa breifat sy'n cyflawni nifer o weithgareddau i roi sicrwydd bod gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei wneud yn unol â safonau ansawdd priodol a bod ei systemau ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

## Materion sylweddol

Yn 2011-12 daeth y Pennaeth Archwilio mewnol i'r casgliad bod systemau Swyddfa Archwilio Cymru, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn gallu cyflawni gwaith rheolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd gwendidau penodol a sylweddol yn y ffordd roedd rheolaethau mewnol yn gweithredu, a ddangosodd nad oedd systemau yn gweithredu'n effeithiol. Daeth i'r casgliad ei bod yn hanfodol bod rheolwyr yn nodi gwendidau yn gyflym ac yn mynd i'r afael â hwy yn effeithiol.

Cafodd y farn archwilio mewnol ei llywio gan y gwendidau canlynol:

- a mae'n hanfodol datblygu a gwella ymhellach reolaeth ariannol a chyfrifon rheoli;
- b mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu risg o gael cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â rheoliadau ynglŷn â threth cyflogaeth;
- c mae angen adnewyddu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau i staff a'u diweddaru'n gyffredinol yn unol â'r strwythurau llywodraethu a rheoli newydd; ac
- ch mae lle i wella'r system o gydymffurfio â gweithdrefnau sy'n llywodraethu contractau a chaffael.

## Rheolaeth ariannol a chyfrifon rheoli

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer cyfrifon rheoli a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn sylfaen dda i helpu'r Pwyllgor Gweithredol i reoli'r ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio adnoddau, gan helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Fodd bynnag, daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad fod angen gwneud gwelliannau pellach i'r cyfrifon rheoli ac adroddiadau eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir, cyson ac amserol ar gael i'r Pwyllgor Gweithredol.

Yn 2011-12, cafodd y trefniadau rheoli ac adrodd cyllidebol eu hailgysoni i adlewyrchu cyfrifoldebau pob un o'm harchwilwyr cyffredinol cynorthwyol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y trefniadau hynny yn cael eu hefelychu drwy weddill Swyddfa Archwilio Cymru ac i atgyfnerthu gallu'r tîm cyllid yn sgil ymadawiad y Pennaeth Cyllid.

At hynny, comisiynais y gwaith o ddatblygu llawlyfr cyllidebol a fydd yn ategu'r trefniadau newydd hyn ac rwyf wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu a gweithredu gwelliannau pellach yn unol ag arfer da.

## Rheoliadau ynglŷn â threth cyflogaeth

Oherwydd natur busnes Swyddfa Archwilio Cymru, am resymau effeithlonrwydd gweithredol, mae ei staff yn gweithio mewn amrywiaeth mawr o leoliadau ledled Cymru. Yn 2011-12, daeth yn amlwg bod rhai aelodau o staff, dros amser, at ddibenion asesu treth, wedi sefydlu gweithleoedd parhaol mewn lleoliadau heblaw am eu gweithle arferol o bosibl ac y dylid bod wedi talu treth ar dreuliau yr aethpwyd iddynt wrth deithio i'r lleoliadau hynny.

Mae fy staff wedi bod yn gweithio gyda'm cynghorwyr treth annibynnol i gadarnhau natur a chwmpas unrhyw achos o dorri'r rheoliadau ac rwyf wedi gwneud darpariaeth yn fy nghyfrifon ar gyfer y rhwymedigaeth amcangyfrifedig a nodwyd ganddynt hyd yma. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn datrys y mater a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â rheoliadau treth.

## Polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithredu system rheoli matrics i gyflawni prosiectau a darparu gwasanaethau ers ei sefydlu yn 2005. Roedd y dull gweithredu hwn wedi cymylu llinellau atebolrwydd o fewn y sefydliad, gan arwain at rywfaint o amryfusedd o ran cyfrifoldebau a threfniadau adrodd.

Yn 2011-12, gwneuthum gyfrifoldebau a llinellau adrodd o fewn Swyddfa Archwilio Cymru yn eglur, gan gwblhau'r elfen olaf o'r broses honno – ailstrwythuro'r Grŵp Archwilio Perfformiad – yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

At hynny, mae natur newidiol fy nhrefniadau llywodraethu gwell wrth i mi baratoi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y strwythur corfforaethol newydd a ragwelir ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn golygu bod yn rhaid i bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n cefnogi gweithrediadau gael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus.

Nid yw'r polisïau, y gweithdrefnau na'r canllawiau sydd eu hangen i gefnogi'r trefniadau llywodraethu hyn yn gwbl gyfredol. Mae cynlluniau gweithredol a chynlluniau busnes ar waith, i'w diweddaru, gan gynnwys datblygu rhai newydd lle y bo'n briodol yn ystod 2012-13.

## Trothwyon tendro'r Undeb Ewropeaidd

Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n llywodraethu contractau a chaffael a chyfrifoldebau am gadarnhau bod y rheolaethau a sefydlwyd yn gweithredu fel y'u cymeradwywyd. Fodd bynnag, nododd hefyd fod lle i wella'r system gydymffurfio i sicrhau bod y gweithdrefnau yn cael eu dilyn.

Rwyf yn cydnabod bod angen eglurder o ran gweithdrefnau caffael a dyrannu cyfrifoldebau cysylltiedig, gan gynnwys gwaith monitro priodol yn erbyn trothwyon Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Byddaf yn sicrhau y caiff y materion hyn eu cwmpasu mewn cyfarwyddiadau ariannol sefydlog.

## Y camau nesaf

Rwyf wedi derbyn canfyddiadau'r Pennaeth Archwilio Mewnol ac mae rheolwyr yn ymrwymedig i weithredu ei argymhellion penodol yn ystod 2012-13. Mae rheolwyr yn cynnal cronfa ddata o argymhellion Archwilio Mewnol ac maent yn monitro cynnydd yn ei herbyn a byddant yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg bob blwyddyn. Bydd staff Archwilio Mewnol yn adolygu adroddiad cynnydd rheolwyr.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

19 Gorffennaf 2012

# ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiwn ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2011/12 y Llywodraeth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r partïon y mae wedi'i gyfeirio atynt yn unig yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodwyd ar dudalen 49, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn ar reoleidd-dra gwariant a derbyniadau.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. At hynny, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y Ddeddf honno, o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2012 a'r alldro adnoddau net, y gofyniad arian parod net, y gwariant net cynhwysfawr, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan FReM 2011/12; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn ein barn ni, mae'r gwariant a'r incwm a ddangoswyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu ym mhob ffordd berthnasol.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynwn adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes dim i'w nodi gennym o ran y materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad; neu
- nid yw'r datganiad llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol y Trysorlys.

## Adroddiad

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

RSM Tenon Audit Limited
20 Gorffennaf 2012

Archwilwyr Cofrestredig
Vantage
Victoria Street
Basingstoke
Hampshire
RG21 3BT

Dyma gyfieithiad o Dystysgrif Archwilio RSM Tenon Audit Limited a gafodd ei baratoi a'i lofnodi yn Saesneg yn dilyn Archwiliad o'r datganiadau ariannol Saesneg.

This is a translation of the Audit Certificate of RSM Tenon Audit Limited which was prepared and signed in English following an Audit of the English financial statements.

# CRYNODEB O ALLDRO ADNODDAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2012

| | 2011-12 | | | | | | | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | AMCANGYFRIF | | | ALLDRO | | | Cyfanswm alldro net o gymharu â'r gyllideb | ALLDRO |
| | Gwariant gros | Incwm | CYFAN-SWM NET | Gwariant gros | Incwm | CYFAN-SWM NET | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Refeniw** | 12,857 | (8,024) | 4,833 | 12,767 | (8,024)[1] | 4,743 | 90 | 3,907 |
| **Cyfalaf** | 20 | | 20 | 3 | | 3 | 17 | 27 |
| **Addasiad o'r cyfnod blaenorol** | | | | | | | 0 | 544 |
| **Atodol** | 550 | | 550 | 97 | | 97 | 453 | |
| **CYFANSWM ADNODDAU** | 13,427 | (8,024) | 5,403 | 12,867 | (8,024) | 4,843 | 560 | 4,478 |
| **GOFYNIAD ARIAN PAROD NET (gweler y cysoniad isod)** | | | 5,303 | | | 3,358 | 1,945 | 4,445 |

1 Lleihawyd incwm o £8,334,000 i dynnu £310,000 er mwyn gwneud cyfanswm o £8,024,000 i fod yn gyson â'n hamcangyfrif. Cynhwysir y swm o £310,000 yn y tabl Gofyniad Arian Parod Net isod ac mae'n cynyddu'r swm sy'n ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

# Cysoni Cyfanswm Adnoddau â Gofyniad Arian Parod Net

| | | 2011-12 | | | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 | Alldro £'000 |
| **Cyfanswm adnoddau (fel uchod)** | | 5,403 | 4,843 | 560 | 4,478 |
| **Addasiadau:** | | | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | | | (121) | (79) | (108) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | | 100 | (1,054) | 1,154 | 619 |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | | | (310) | 310 | |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | | | | | (544) |
| **Arian parod 2011-12** | 4,753 | | | | |
| **Arian atodol 2011-12**[1] | 550 | | | | |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net (fel uchod)** | | 5,303 | 3,358 | 1,945 | 4,445 |

1 Yng nghyfrifon 2010-11 cafwyd swm dyledus o £629,000 i Gronfa Gyfunol Cymru. Yn 2011-12 cytunwyd ar swm atodol o £550,000. O ganlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu cadw'r elfen hon o'r arian parod ac ad-dalu'r swm dyledus a oedd yn weddill sef £79,000 i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2011-12.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau uchod yn crynhoi sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn yr elfennau hynny o gyllideb y Swyddfa sy'n amodol ar gymeradwyaeth drwy gynnig cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol. Yr elfennau dan sylw yw swm yr adnoddau a'r arian parod y gellir eu tynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru a swm yr incwm a gynhyrchir drwy waith grant yn y GIG, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a ffynonellau amrywiol y gellir ei gadw.

# Cysoni Alldro Adnoddau â gwariant net

| | Alldro 2011-12 | Alldro 2010-11 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm adnoddau** | **4,843** | **4,478** |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | (310) | |
| Gwariant cyfalaf sy'n fwy na'r amcangyfrif | | (27) |
| Incwm nad yw'n gyllid cyflenwi | (10,604) | (11,521) |
| Gwariant nad yw'n gyllid cyflenwi | 10,826 | 10,651 |
| Addasiad o'r cyfnod blaenorol | | (544) |
| **Gwariant net** | **4,755** | **3,037** |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi lle mae'r ffigurau uchod wedi'u codi o'r ffigurau cyfatebol yn y Datganiad Cyfrifon, ac yn dangos sut y dosrannwyd y ffigurau hynny yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

| | **Nodyn** | **Cyfanswm<br>£'000** | **Wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau £'000** | **Heb eu cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Incwm (ffioedd) | 2 | 17,616 | 8,307 | 9,309 |
| Incwm (grant) | 2 | 1,295 | | 1,295 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 16 | 16 | - |
| Llog banc | | 11 | 11 | - |
| Cyfanswm incwm yn ôl y Datganiad Cyfrifon | | 18,938 | 8,334 | 10,604 |
| Llai incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | | (310) | (310) | - |
| **Cyfanswm incwm yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau** | | **18,628** | **8,024** | **10,604** |
| | | | | |
| Gwariant | 2 | 23,716 | 12,890 | 10,826 |
| Treth gorfforaeth | | (23) | (23) | |
| **Cyfanswm gwariant yn y crynodeb o alldro adnoddau** | | **23,693** | **12,867** | **10,826** |
| | | | | |
| Dibrisiant | 7 | 276 | 121 | 155 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | Datganiad Llif Arian Parod | 2,396 | 1,054 | 1,342 |
| Ychwanegiadau cyfalaf | 8 a 9 | 7 | 3 | 4 |

Y symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn y tabl uchod yw swm net y symudiadau mewn symiau derbyniadwy (£426,000) a symiau taladwy (£288,000) a darpariaethau (£2,258,000) a ddangosir yn y Datganiad Llif Arian Parod.

**Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol**

Fel y nodwyd uchod, yn y flwyddyn derbyniwyd £310,000 o incwm yn fwy na'r swm o £8,024,000 y caniatawyd i ni ei gadw.

**Esboniad o amrywiannau**

1 Mae'r tanwariant net uchod yn deillio o'r arbedion a'r effeithlonrwydd a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn (fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Ariannol) gan gynnwys:

- Lleihad o £1.0 miliwn mewn gwariant gweithredu arferol, sy'n codi o raglen o reoli costau'n weithredol a newidiadau yn arferion gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.
- Cynnydd o £1.4 miliwn mewn ffrydiau incwm sy'n deillio o'r gwaith ychwanegol y bu'n ofynnol i ni ymgymryd ag ef neu y cawsom ein comisiynu i'w wneud yn ystod y flwyddyn.
- Tanwariant o £0.45 miliwn yn erbyn y cynnig atodol yn 2011-12 i gymeradwyo £0.55 miliwn i ariannu'r cynllun ymadael gwirfoddol. Roedd llai o staff wedi manteisio ar y cynllun hwn na'r disgwyl. O ganlyniad, costiodd y cynllun £0.35 miliwn, yr ariannwyd £0.25 miliwn o'r swm hwnnw o adnoddau presennol Swyddfa Archwilio Cymru (fel y'u nodwyd yn ein hamcangyfrif atodol) ac felly dim ond £0.1 miliwn o'r amcangyfrif atodol a oedd ei angen i ariannu'r cynllun hwn.
- Yn ystod y flwyddyn neilltuodd Swyddfa Archwilio Cymru ddarpariaeth o £2.6 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau treth posibl ac o ganlyniad mae'r warged wedi lleihau yn unol â hynny.

**Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru**

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12, mae swm o £1,945,000 yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 80 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2012

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 | Blwyddyn Wedi'i Hailddatgan hyd at 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | 4 | 14,855 | 15,992 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 3,507 | 3,379 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 5,354 | 2,993 |
| | 2 | 23,716 | 22,364 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 2 | 17,616 | 17,340 |
| Grant arolygu | 2 | 1,295 | 1,836 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 16 | 156 |
| | | 18,927 | 19,332 |
| **Gwariant net** | | **(4,789)** | **(3,032)** |
| Llog (taladwy)/derbyniadwy | | 11 | 8 |
| Treth gorfforaeth (taladwy)/adenilladwy | | 23 | (13) |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **(4,755)** | **(3,037)** |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(4,755)** | **(3,037)** |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 80 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

Mae'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu incwm o secondiad sy'n lleihau costau staff yn nodyn 4 yn hytrach na'i nodi fel ffrwd incwm ar wahân yn Nodyn 3.

# DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2012

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 631 | 746 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 218 | 442 |
| *Cyfanswm yr asedau anghyfredol* | | 849 | 1,188 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 10 | 1,223 | 1,606 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 11 | 522 | 562 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 12 | 6,667 | 4,016 |
| *Cyfanswm asedau cyfredol* | | 8,412 | 6,184 |
| | | | |
| *Cyfanswm asedau* | | 9,261 | 7,372 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 13 | 2,433 | 1,671 |
| Incwm gohiriedig | 14 | 2,279 | 3,329 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 3,134 | 458 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | 1,945 | 629 |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol* | | 9,791 | 6,087 |
| | | | |
| *Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol* | | (530) | 1,285 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 705 | 1,123 |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol* | | 705 | 1,123 |
| | | | |
| *Asedau llai rhwymedigaethau* | | (1,235) | 162 |
| | | | |
| ***Ecwiti trethdalwyr*** | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | | (1,235) | 162 |
| *Cyfanswm cronfeydd wrth gefn* | | (1,235) | 162 |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 80 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2012

# DATGANIAD O LIFAU ARIAN PAROD AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2012

| | Nodiadau | 2011-12 £000 | 2010-11 £000 |
|---|---|---|---|
| ***Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu*** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (4,755) | (3,037) |
| Anariannol: dibrisiant | 7 | 276 | 265 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10,11 | 426 | 319 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13,14 | (288) | (1,286) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 15 | 2,258 | (551) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | (2,083) | (4,290) |
| ***Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi*** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (7) | (5) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | 0 | (59) |
| Ailddosbarthu'n refeniw | 8 | 67 | |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | 60 | (64) |
| ***Llifau arian parod o weithgareddau ariannu*** | | | |
| Swm a dderbyniwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | | 4,753 | 5,074 |
| Swm a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2010-11 | | (79) | |
| **Ariannu net** | | 4,674 | 5,074 |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 12 | **2,651** | **720** |

Yng nghyfrifon 2010-11 cafwyd swm dyledus o £629,000 i'w dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Yn 2011-12 cytunwyd ar swm atodol o £550,000. O ganlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu cadw'r elfen hon o'r arian parod ac ad-dalwyd y swm dyledus a oedd yn weddill sef £79,000 i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2011-12.

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 80 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2012

| | £000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | (1,246) |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2010-11** | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (3,037) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,074 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (629) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | 162 |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2011-12** | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (4,755) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,303 |
| | 710 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru[1] | (1,945) |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth 2012** | (1,235) |

1 Fel y nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 80 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# NODYN 1: CONFENSIYNAU A PHOLISÏAU CYFRIFYDDU

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2011-12, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw. Er bod y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn dangos diffyg net o £1,235,000 ar 31 Mawrth 2012 rydym yn fodlon bod gennym ddigon o arian i fodlon ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r diffyg net wedi codi o ganlyniad i'r darpariaethau sylweddol y bu'n ofynnol i ni eu gwneud a all arwain at ofyniad arian parod ychwanegol yn y dyfodol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y bo FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

(i) Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle bo hynny'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe'u cyflwynir mewn punnoedd Prydeinig sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

(ii) Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

(iii) Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler xi). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler ix). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

(iv) Priodolwyd costau yr eir iddynt mewn gwaith archwilio (hy, costau staff a chwmnïau dan gontract) yn uniongyrchol i'r ffrydiau incwm perthnasol. Codir am wariant arall yn gyntaf yn erbyn y cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru nas dyrannwyd ac yna, i'r graddau y mae'r arian ar gael, fe'i priodolir i ffrydiau incwm yn gymesur yn union â lefelau incwm.

(v) Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus.

(vi) Caiff rhenti prydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o gyfanswm y treuliau prydles. Os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o gyfnodau di-rent yn ystod prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu'n gyfartal dros y cyfnod o ddechrau'r brydles hyd nes yr adolygiad rhent cyntaf.

(vii) Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

(viii) Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i dalu am gost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer a meddalwedd gyfrifiadurol unigol a chyfun gwerth dros £5,000; offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfeydd. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

(ix) Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Pennir darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach a dderbynnir pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

(x) Caiff darpariaeth ar gyfer costau dadfeilio eiddo ar brydles yn y dyfodol ei chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Fe'i cronnir drwy daliad dadfeilio blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles.

(xi) Mae incwm gohiriedig yn cynnwys incwm ffi sydd wedi'i anfonebu ond sydd heb ei gydnabod eto. Fe'i cyfrifir drwy asesu i ba raddau y mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, gan gydnabod y gyfran honno o incwm ffioedd a anfonebwyd fel refeniw yn ystod y cyfnod a thrin incwm sydd wedi'i anfonebu ond heb ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

(xii) Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath ei adolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ym mhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Gwneir y defnydd mwyaf o amcangyfrifon a dyfarniadau pwysig yn y meysydd canlynol:

- Mae darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn seiliedig ar ragamcanion o daliadau pensiwn disgwyliedig yn y dyfodol. Yn unol â safonau cyfrifyddu, cydnabyddir y ddarpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad sy'n dwyn rhwymedigaeth, gan dybio ei bod yn debygol bod angen trosglwyddo buddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif hyn mewn ffordd ddibynadwy.
- Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar sail canran y gwaith heb ei filio sydd wedi'i gwblhau. Cyfrifir incwm gohiriedig ar sail asesiad o'r graddau y mae prosiect wedi'i gwblhau, fel yr eglurir uchod.
- Mae darpariaethau treth yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.

(xiii) Ystyrir digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol y gall fod angen eu datgelu neu eu haddasu yn unol â gofynion Safon Gyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 10 hyd at y dyddiad yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel y dyddiad y llofnodir adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.

# NODYN 2: DADANSODDIAD O WARIANT NET FESUL SEGMENT

Crynhoir incwm, ariannu a chostau gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011-12 yn y tabl canlynol:

| | Archwilio llywodraeth leol | Ardystio grantiau llywodraeth leol[1] | Archwilio'r GIG[1] | Archwilio llwodraeth ganolog[1] | Perfformiad llwodraeth leol | Perfformiad y GIG[1] | Perfformiad llywodraeth ganolog[1] | Gwaith gwerth am arian a arianwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Gweithgareddau eraill a arianwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswml |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm ac ariannu** | | | | | | | | | | |
| Ffioedd | 5,453 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 3,856 | 1,686 | 2 | | | 17,616 |
| Grant | | | | | 1,295 | | | | | 1,295 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | | | | 1,951 | 3,452 | 5,403 |
| Cyfanswm | 5,453 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 5,151 | 1,686 | 2 | 1,951 | 3,452 | 24,314 |
| Gwariant | 6,088 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 4,738 | 1,321 | 0 | 1,951 | 2,999 | 23,716 |
| | (635) | 0 | 0 | 0 | 413 | 365 | 2 | 0 | 453 | 598 |

1 Mae incwm a gwariant y segmentau hyn wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | **£000** |
|---|---|
| Yn unol â'r dadansoddiad uchod | 598 |
| Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru | (5,403) |
| Treth gorfforaeth adenilladwy | 23 |
| Llog derbyniadwy | 11 |
| Incwm arall | 16 |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (4,755) |

Ffigurau ar gyfer 2010-11 wedi'u hailddatgan fel a ganlyn:

| | Archwilio llywodraeth leol | Ardystio grantiau llywodraeth leol | Y GIG | Llywodraeth ganolog | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm ac ariannu** | | | | | | |
| Ffioedd archwilio | 9,685 | 1,870 | 4,181 | 1,604 | | 17,340 |
| Grant | 1,836 | | | | | 1,836 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | 5,047 | 5,047 |
| Cyfanswm | 11,521 | 1,870 | 4,181 | 1,604 | 5,047 | 24,223 |
| Gwariant | (10,651) | (1,459) | (3,697) | (1,604) | (5,047) | (22,458) |
| | 870 | 411 | 484 | 0 | 0 | 1,765 |

Nid yw ffigurau 2010-11 wedi'u hailddatgan ac felly nid ydynt yn cytuno â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Y rheswm dros beidio ag ailddatgan yw bod y ffigurau hyn yn sail i'r Crynodeb o Alldro Adnoddau ac ailddatganiad dilynol i Gronfa Cyfunol Cymru.

Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | **£000** |
|---|---|
| Yn unol â'r dadansoddiad uchod | 1,765 |
| Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru | (5,047) |
| Treth gorfforaeth | (13) |
| Llog derbyniadwy | 8 |
| Incwm arall | 250 |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (3,037) |

Yn 2010-11 cafodd y papur amcangyfrif ei gyflwyno mewn ffordd wahanol ac ni nododd sut y câi arian Cronfa Gyfunol Cymru ei ddyrannu. Felly ar gyfer 2010-11 nid yw arian o Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i ddyrannu yn erbyn gweithgareddau penodedig. At hynny, wrth gyflwyno ffigurau 2011-12 mae gwaith llywodraeth leol, y GIG a llywodraeth ganolog wedi'i rannu ymhellach i ddangos ai gwaith archwilio perfformiad neu waith archwilio ariannol sydd dan sylw er mwyn adlewyrchu arferion gwaith cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru yn well.

# NODYN 3: INCWM GWEITHREDU ARALL

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 | Blwyddyn wedi'i hailddatgan hyd at 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Costau cyfreithiol a ad-dalwyd | 0 | 3 |
| Incwm amrywiol | 16 | 153 |
| | 16 | 156 |

Mae'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu incwm o secondiad sy'n lleihau costau staff yn Nodyn 4 yn hytrach na'i nodi fel ffrwd incwm ar wahân yn y nodyn hwn.

# NODYN 4: STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 | Blwyddyn wedi'i hailddatgan hyd at 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| (i) | **Costau staff** | | |
| | Cyflogau staff | 10,029 | 10,702 |
| | Ffioedd aelodau anweithredol pwyllgorau[1] | 51 | 32 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | 1,243 | 1,045 |
| | Costau pensiwn | 2,051 | 2,135 |
| | | 13,374 | 13,914 |
| | Cynllun ceir | 681 | 684 |
| | Tanysgrifiadau a buddiannau eraill | 33 | 48 |
| | | 14,088 | 14,646 |
| | Contractwyr archwilio ac arolygu | 728 | 887 |
| | | 14,816 | 15,533 |
| | Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 105 | 553 |
| | Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (66) | (94) |
| | Costau staff net | 14,855 | 15,992 |

1 Fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Mae'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu incwm o secondiad sy'n lleihau costau staff yn Nodyn 4 yn hytrach na'i nodi fel ffrwd incwm ar wahân yn Nodyn 3.

Ceir gwybodaeth fanylach am daliadau cydnabyddiaeth a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 54 i 59.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gymwys i ymuno â PCSPS. Cynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw hwn ond ni all Swyddfa Archwilio Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar lefelau cyflogau a chyfraddau cyfrannu ac maent yn amrywio rhwng 16.7 y cant a 24.3 y cant (2010-11: 16.7 y cant i 24.3 y cant). Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr oedd £2,047,000 (2010-11: £2,129,000). Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl ailbrisio'r cynllun yn llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, nid pan eir i'r costau yn union, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Yn ystod 2011-12, manteisiodd un cyflogai ar y dewis hwn (2010-11: un).

| | | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012** | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|
| **(ii)** | **Niferoedd staff** | | |
| | Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 223 | 228 |
| | Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 17 | 17 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o gontractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn i ateb y galw am adnoddau ar gyfnodau brig.

# NODYN 5: DILEU SWYDDI, YMDDEOLIADAU CYNNAR A DISWYDDIADAU

Gweithredodd Swyddfa Archwilio Cymru gynlluniau diswyddo gwirfoddol yn ystod 2010-11 a 2011-12. Deilliodd y cynlluniau hyn o waith cynllunio'r gweithlu ac maent wedi arwain at leihad yn sylfaen costau staffio Swyddfa Archwilio Cymru. Costiodd y cynllun £346,673 yn 2011-12 ac mae'n gweithredu'n unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac mae wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet. Talwyd am gostau'r cynllun yn 2011-12 yn rhannol drwy arian atodol a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Gadawodd nifer o gyflogeion drwy becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2011-12 a 2010-11 fel y crynhoir isod:

| | 2011-12 | | | 2010-11 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band costau'r pecyn ymadael** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau** |
| Llai na £10,000 | | | | | 1 | 1 |
| £10,000 – £25,000 | | 1 | 1 | | 2 | 2 |
| £25,000 – £50,000 | | 2 | 2 | | 5 | 5 |
| £50,000 – £100,000 | | 2 | 2 | | 1 | 1 |
| £100,000 – £150,000 | | 1 | 1 | | 6 | 6 |
| £200,000 – £250,000 | | | | | | |
| £300,000 – £350,000 | | | | | 1 | 1 |
| £700,000 – £750,000 | | | | | | |
| Cyfanswm | 0 | 6 | 6 | 0 | 16 | 16 |

O'r chwe unigolyn y caniatawyd iddynt adael yn wirfoddol yn 2011-12, roedd gan bump ddyddiadau gadael yn 2012-13. Mae costau'r chwe phecyn wedi'u cynnwys o fewn costau staff (Nodyn 4) a darpariaethau (Nodyn 15).

Talwyd costau ymddeoliadau cynnar ac ymadawiadau yn unol â pholisi Swyddfa Archwilio Cymru, y cytunwyd arno gydag undebau llafur cydnabyddedig. Caiff y costau ychwanegol nas talwyd gan y PCSPS eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u cydnabyddir yn y datganiadau ariannol hyn.

# NODYN 6: GWASANAETHAU ALLANOL

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,393 | 3,264 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 114 | 115 |
| | 3,507 | 3,379 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwil.

# NODYN 7: COSTAU GWEITHREDU ERAILL

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Llety | | |
| - Costau prydlesi rhent | 376 | 402 |
| - Costau eraill | 393 | 369 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 3,626[1] | 1,227 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 31 | 33 |
| Dibrisiant | 276 | 265 |
| Ffi archwilio sy'n daladwy i Audit Scotland | 3 | 25 |
| Ffi archwilio sy'n daladwy i RSM Tenon | 23 | 0 |
| Ffioedd proffesiynol | 105[2] | 251 |
| Teithio a chynhaliaeth | 408 | 448 |
| Hyfforddiant | 140 | 226 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (27) | (253) |
| | 5,354 | 2,993 |

1 Mae cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2011-12 yn cynnwys darpariaethau o £2.6 miliwn.
2 Mae ffioedd proffesiynol yn cyfeirio at ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill.

# NODYN 8: EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| *Cost* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 920 | 260 | 32 | 1,212 |
| Ychwanegiadau | 7 | 0 | 0 | 7 |
| Gwarediadau | (37) | (53) | 0 | (90) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (67) | - | - | (67) |
| Ailddosbarthwyd o asedau anniriaethol | 0 | 0 | 80 | 80 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 823 | 207 | 112 | 1,142 |
| *Dibrisiant* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 302 | 140 | 24 | 466 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 104 | 17 | 19 | 140 |
| Gwarediadau | (35) | (53) | 0 | (88) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (27) | - | - | (27) |
| Ailddosbarthwyd o asedau anniriaethol | 0 | 0 | 20 | 20 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 344 | 104 | 63 | 511 |
| *Gwerth llyfr net* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 479 | 103 | 49 | 631 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 618 | 120 | 8 | 746 |
| *Ariannu asedau* | | | | |
| A berchenogir | 479 | 103 | 49 | 631 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| *Cost* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 918 | 884 | 36 | 1,838 |
| Ychwanegiadau | 7 | 1 | 0 | 8 |
| Gwarediadau | (5) | 0 | (4) | (9) |
| Ailddosbarthwyd yn asedau anniriaethol | 0 | (625) | 0 | (625) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 920 | 260 | 32 | 1,212 |
| *Dibrisiant* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 214 | 332 | 24 | 570 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 91 | 142 | 4 | 237 |
| Gwarediadau | (3) | (0) | (4) | (7) |
| Ailddosbarthwyd yn asedau anniriaethol | 0 | (334) | 0 | (334) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 302 | 140 | 24 | 466 |
| *Gwerth llyfr net* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 618 | 120 | 8 | 746 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 704 | 552 | 12 | 1,268 |
| *Ariannu asedau* | | | | |
| A berchenogir | 618 | 120 | 8 | 746 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

# NODYN 9: ASEDAU ANNIRIAETHOL

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

| | **Cyfanswm £000** |
|---|---|
| *Cost* | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 804 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Gwarediadau | (9) |
| Ailddosbarthwyd i offer swyddfa | (80) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 715 |
| *Amorteiddio* | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 362 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 164 |
| Gwarediadau | (9) |
| Ailddosbarthwyd i offer swyddfa | (20) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 497 |
| *Gwerth llyfr net* | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 218 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 442 |

| | **Cyfanswm £000** |
|---|---|
| *Cost* | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |
| Ychwanegiadau | 59 |
| Ailddosbarthwyd o asedau TG | 625 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 804 |
| *Amorteiddio* | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 0 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 28 |
| Ailddosbarthwyd o asedau TG | 334 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 362 |
| *Gwerth llyfr net* | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 442 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |

# NODYN 10: SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau masnach derbyniadwy** | | |
| – Llywodraeth ganolog | 96 | 91 |
| – Llywodraeth leol | 141 | 495 |
| – Y GIG | 248 | 402 |
| – Y tu allan i'r llywodraeth | 6 | 0 |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** | | |
| – Llywodraeth ganolog | 408 | 355 |
| – Llywodraeth leol | 199 | 211 |
| – Y GIG | 125 | 52 |
| | 1,223 | 1,606 |

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach a dderbyniwyd yn 2011-12.

Darpariaethau drwgddyledion a dyledion amheus (caiff y rhain eu clirio yn erbyn y dosbarth priodol o ddyledwr yn y dadansoddiad uchod):

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Darpariaeth agoriadol | 27 | 280 |
| Darpariaeth a wnaed/(a ryddhawyd) yn ystod y flwyddyn | (27) | (253) |
| Darpariaeth wrth gau | 0 | 27 |

# NODYN 11: SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy eraill | 46 | 104 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 474 | 453 |
| Benthyciadau i gyflogeion | 2 | 5 |
| | 522 | 562 |

Mae symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod:

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Wedi'u cynnwys mewn dyledwyr eraill: | | |
| – Cynllun adleoli tai: blaensymiau i staff | 0 | 3 |

Gellir dadansoddi balansau'r symiau derbyniadwy yn Nodiadau 10 ac 11 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 583 | 845 |
| Cyrff llywodraeth leol | 487 | 744 |
| Cyrff y GIG | 308 | 456 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 367 | 123 |
| | 1,745 | 2,168 |

# NODYN 12: ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | 2011-12 £000 | 2010-11 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 4,016 | 3,296 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 2,651 | 720 |
| Balans ar 31 Mawrth | 6,667 | 4,016 |

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 5,672 | 3,060 |
| Cyfrif Ewro | 3 | 1 |
| Y Gronfa Sterling Fyd-eang | 992 | 955 |
| | 6,667 | 4,016 |

Mae'r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Diben y cyfrif Ewro yw symleiddio trafodion tramor achlysurol.

Darperir y Gronfa Sterling Fyd-eang gan Grŵp RBS. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae'r gronfa wedi'i strwythuro i sicrhau y cynhelir y statws credyd uchaf, sef statws AAA neu statws cyfwerth, gydag asiantaethau graddio statws Standard & Poor, Fitch a Moody.

# NODYN 13: SYMIAU MASNACH TALADWY A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | **31 Mawrth 2012 £000** | **31 Mawrth 2011 £000** |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 224 | 47 |
| TAW | 451 | 330 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 360 | 0 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 619 | 696 |
| Croniadau eraill[1] | 779 | 598 |
| | 2,433 | 1,671 |

1 Mae'r rhan helaeth o'r croniadau eraill yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Hefyd yn y ffigurau croniadau eraill mae swm o £54,883 ar gyfer addasiadau prydles sy'n ymwneud â chyfnod di-rent wedi'i amorteiddio dros oes pum mlynedd y brydles. Mae ffigur o £210,669 ar gyfer cyfraniadau pensiwn mis Mawrth wedi'i gynnwys o fewn croniadau eraill ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012; yn 2010-11 talwyd y cyfraniadau hyn cyn diwedd y flwyddyn.

Mae pob swm masnach taladwy yn ddyledus o fewn blwyddyn.

# NODYN 14: INCWM GOHIRIEDIG

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 2,279 | 3,329 |
| | 2,279 | 3,329 |

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae’n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi’u cwblhau, fel canran, a chydnabod y gyfran honno o’r incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi’i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

Roedd incwm gohiriedig ar 31 Mawrth 2011 yn cynnwys swm o £280,000 a ad-dalwyd i gyrff archwilio ers y dyddiad hwnnw.

Gellir dadansoddi’r balansau taladwy yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 1,051 | 125 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,482 | 1,686 |
| Cyrff y GIG | 815 | 1,567 |
| Corfforaethau cyhoeddus | 0 | 0 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,364 | 1,622 |
| | 4,712 | 5,000 |

# NODYN 15: DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | Cyllid a Thollau EM | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **31 Mawrth 2011** | 118 | 1,463 | 0 | 1,581 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 28 | 225 | 2,605 | 2,858 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | (600) | 0 | (600) |
| **31 Mawrth 2012** | 146 | 1,088 | 2,605 | 3,839 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM sef 2.8 y cant mewn termau real i gyfrifo'r balans hwn (2010-11: 1.8 y cant).

Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 32 | 497 | 2,605 | 3,134 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 17 | 516 | | 533 |
| Dros bum mlynedd | 97 | 75 | | 172 |
| **Cyfansymiau** | 146 | 1,088 | 2,605 | 3,839 |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi. Cyfrifir dadfeiliadau drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr ased a brydlesir.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cyllid a Thollau EM yn ymwneud â'r canlynol:

- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol i gontractwyr sydd wedi darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2012;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i rai aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru; a
- rhwymedigaeth amcangyfrifedig tra'n aros i ymholiad sydd wedi bod yn destun trafodaeth gyda Chyllid a Thollau EM ers tro o ran statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol gael ei ddatrys.

# NODYN 16: PRYDLESI GWEITHREDU

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2011 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo sy’n dod i ben:

| | **31 Mawrth 2012 £000** | **31 Mawrth 2011 £000** |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 17 | 51 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 373 | 419 |
| | 390 | 470 |

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2012 o ran prydlesi swyddfeydd sy’n dod i ben:

| | **2012 £000** | **2012 Nifer yr eiddo** | **2011 £000** | **2011 Nifer yr eiddo** |
|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | | | 0 | 0 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 109 | 1 | 231 | 3 |
| Dros bum mlynedd | 4,048 | 2 | 4,293 | 1 |
| | 4,157 | 3 | 4,524 | 4 |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

# NODYN 17: COLLEDION A THALIADAU ARBENNIG

## Taliadau arbennig

Cytunodd nifer o gyflogeion i adael eu cyflogaeth o dan gynlluniau ymddeol gwirfoddol ac ymddeol yn gynnar yn ystod 2011-12 a 2010-11, fel y datgelir yn Nodiadau 4(i) a 5.

## Colledion

Ni fu unrhyw golledion y gellir eu datgelu yn 2011-12.

# NODYN 18: DEILLIADAU AC OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae IAS 32 *Offerynnau Ariannol: Datgelu a Chyflwyno* ac IAS 39 *Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian, ni fu'n rhaid i'r Swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fuddsoddi arian dros ben hefyd, a gwna hynny drwy gyfrif llog dros nos a thrwy'r Gronfa Sterling Fyd-eang (gweler Nodyn 12). Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

## Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.
Yn sgil yr agwedd hon, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

## Risg cyfradd llog

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

## Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r warged weithredu.

## Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i hamlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2012 (31 Mawrth 2011: dim).

# NODYN 19: RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gofyn am gadarnhad bod staff gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i fodloni'r diffiniad o fod 'wedi'u lleoli'n ddaearyddol' at ddibenion treth. Rydym yn aros am ateb. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dweud a fydd unrhyw rwymedigaeth yn crisialu, ac os felly, beth fyddai swm tebygol rhwymedigaeth o'r fath. Pe bai rhwymedigaeth sylweddol yn crisialu, byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol gael arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu ffioedd archwilio ychwanegol i fodloni'r rhwymedigaeth honno.

# NODYN 20: TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Unig gorfforaeth yw'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cynnal nifer o drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo ef a'i archwilwyr penodedig.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r datgeliad canlynol yn ymwneud â staff, neu eu partïon cysylltiedig, sydd mewn sefyllfa ddylanwadol yn sgil cael eu hethol, cael tâl cydnabyddiaeth gan, neu gael eu penodi i unrhyw sefydliad, er enghraifft:

- lle bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penodi'r archwilydd neu'n arolygu'r corff;
- lle bo cyfrifoldebau statudol penodol i gydweithio ee, Comisiwn Ansawdd Gofal;
- sy'n adran llywodraeth ganolog; ac
- sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i'r Archwilydd Cyffredinol neu sy'n cael gwasanaethau sylweddol ganddo.

| Aelod Pwyllgor | Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 |
|---|---|
| Peter Laing | Cafodd gydnabyddiaeth o'r lywodraeth ganolog mewn perthynas â nifer o dribiwnlysoedd |
| Dr Michael P Brooker | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyngor Ymchwil Amgylcheddol Naturiol |
| Steven Burnett | Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Sefydledig Menywod Lerpwl |
| Dr Arun Midha | Sylwedydd lleyg yng Ngholeg Brenhinol y Milfeddygon<br>Aelod annibynnol o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru<br>Cadeirydd anibynnol o adolygiadau ôl-weithredol o ofal iechyd parhaus, Llywodraeth Cymru<br>Aelod o'r Cyngor Proffesiynau Iechyd<br>Cyfarwyddwr anweithredol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Dyfodol Cynaliadwy<br>Cynghorydd i Brifysgol Abertawe<br>Aelod o'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, Bwrdd Safonau'r Bar<br>Aelod o Bwyllgor Apeliadau'r Cyngor Fferyllol<br>Aelod o Bwyllgor Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol (Cymru)<br>Is-gadeirydd, Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr<br>Aseswr Queen's University Prizes for Further and Higher Education |
| Dr Elizabeth Haywood | Cadeirydd WCVA Services Ltd<br>Mae'n derbyn cydnabyddiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

| Aelod o Staff | Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 |
|---|---|
| Alison Butler | Mae ei gŵr yn Gyfarwyddwr Cyllid a Materion Corfforaethol yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd ac yn Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Gary Biggin | Mae ei wraig yn Gyfarwyddwr Cydffederasiwn GIG Cymru ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Cymdeithas Tai Linc-Cymru |
| John Weston | Mae ei wraig wedi'i chyflogi fel Prif Swyddog yng Nghyngor Abertawe |
| Mike Usher | Mae ei wraig yn rhoi cyngor ar brosiect a ariennir gan yr UE ac a reolir gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Nick Selwyn | Mae ei wraig yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Taf |
| Louise Fleet | Llywydd a Chyfarwyddwr Undeb Golff Cymru sy'n derbyn cyllid sylweddol gan Chwaraeon Cymru |